

# Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2025

## Addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16

Adroddiad ymchwil gan Jayne Duff, Aisling O'Boyle ac Ian Collen, Prifysgol Queen's Belffast

www.britishcouncil.org

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair gan British Council Cymru | **2** |
| Cyflwyniad | **4** |
| Prif ganfyddiadau 2025 | **4** |
| Cyd-destun a chefndir polisi | **5** |
| Amlinelliad o'r ymchwil | **5** |
| Ffigurau arholiadau cyhoeddus | **6** |
| Canfyddiadau'r arolwg ysgolion cynradd | **9** |
| Canfyddiadau'r arolwg ysgolion uwchradd | **21** |
| Canfyddiadau'r arolwg colegau ôl-16 | **44** |
| Casgliad | **46** |
| Llyfryddiaeth Cyfeiriadau | **47** |

# Rhagair gan British Council Cymru

Rydyn ni'n cyflwyno'r adroddiad hwn ar adeg dyngedfenol i addysg ieithoedd yng Nghmru. Dyma unfed adroddiad ar ddeg ein cyfres *Tueddiadau Ieithoedd Cymru*, ein golwg fanwl flynyddol ar sefyllfa addysgu a dysgu ieithoedd rhyngwladol yn ysgolion y wlad. Ers dros ddegawd mae'r adroddiad hwn wedi adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru o ran uchelgais ieithyddol, gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol ac ymgysylltiad rhyngwladol.

Mae Cymru'n anelu at fod yn wlad eangfrydig â golwg ryngwladol, sy'n hyderus o'i lle ar lwyfan y byd ac yn falch o'i hamrywiaeth ddiwylliannol ac ieithyddol. Mae addysgu a dysgu ieithoedd yn rhan hanfodol o wireddu'r weledigaeth honno. Mae'n grymuso pobl ifanc i gysylltu, deall a ffynnu y tu hwnt i'n ffiniau.

Mae canfyddiadau arolwg eleni'n cynnig darlun o fomentwm cynyddol ar y naill law, a heriau gwirioneddol ar y llall. Maent yn destun gobaith, yn sicr, ond hefyd yn alwad digamsyniol i weithredu.

Yng Nghyfnod Allweddol 4, rydyn ni'n gweld arwyddion calonogol o'r diwedd o adfywiad, gyda chynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Ffrangeg a Sbaeneg. Mae twf yr egin gobeithiol hyn yn dysteb i ymroddiad ac angerdd athrawon iaith ac eiriolwyr dros addysg ieithoedd ledled Cymru, ac i gydnabyddiaeth ehangach o ba mor hanfodol yw amlieithrwydd yn ein byd ni heddiw. Dylid dathlu ac adeiladu ar y cynnydd hwn.

Mae pethau'n symud yn yr ysgolion cynradd hefyd. Ag ieithoedd rhyngwladol bellach yn rhan statudol o'r Cwricwlwm i Gymru, mae llawer o ysgolion yn cofleidio'r cyfle i gyflwyno cyfoeth ac amrywiaeth ieithoedd a diwylliannau'r byd i blant o oed ifanc. Mae hwn yn newid i'w groesawu. Mae'n drawsnewidiol. Mae'n gosod sylfeini i genhedlaeth o bobl ifanc sy'n fwy effro i'r byd, yn fwy agored ac yn fwy hyderus.

Ond rhaid peidio â llaesu dwylo. Nid yw pob ysgol gynradd wedi llwyddo eto i gyflwyno ieithoedd rhyngwladol. Mae'r dirywiad serth yn nifer y ceisiadau ar gyfer Safon Uwch mewn ieithoedd rhyngwladol yn destun pryder gwirioneddol – yn enwedig mewn Almaeneg, sydd bellach mewn perygl o ddiflannu'n llwyr o gwricwlwm ôl-16 Cymru. Nid ystadegyn yn unig yw hwn. Mae'n rhybudd. Bydd y dirywiad yma'n cyfyngu ar gyfleoedd iaith cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, gan effeithio ar eu gallu i fyw, gweithio a chysylltu ar draws ffiniau. Rhaid i ieithoedd fod yn un o gonglfeini uchelgais ein gwlad – gwlad sy'n eangfrydig, â meddwl rhyngwladol ac yn falch o'i lle ar lwyfan y byd.

Mae'r ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd yn dal i fod yn dameidiog ac anghyson. Rhaid peidio caniatáu i'r brwdfrydedd sy'n cael ei feithrin yn yr ysgolion cynradd fynd ar goll yn yr ysgolion uwchradd, a thu hwnt. Heb sianel ddatblygu glir a chefnogaeth gadarn, mae

perygl y byddwn yn tanio brwdfrydedd pobl ifanc ond wedyn yn methu â chynnig ffordd iddynt ddilyn llwybr ieithoedd ymhellach.

Wedi degawd a mwy o ddilyn y tueddiadau hyn, ac adrodd yn gyson am ddirywiad yng nghyfnodau allweddol y system addysg, mae'n amser i wneud mwy na chydnabod y sefyllfa'n unig. Mae'n amser i ymroi i'r cynllunio a'r buddsoddi hirdymor sydd ei angen i wireddu uchelgais cynllun Dyfodol Byd-eang yn llawn. Fel mae Cymraeg 2050 yn ei ddangos, o ran cynllunio ieithyddol mae angen meddwl a buddsoddi yn y system drwyddi draw. Bydd o fudd i Gymru ystyried hynny.

Mae Cymru'n wald sy'n dathlu amrywiaeth eang o hunaniaethau a lleisiau. Rydyn ni'n Genedl Noddfa, yn wald amlieithog ac yn cyfrannu'n falch i'r sgwrs ryngwladol. Siaredir dros 130 o ieithoedd gan ddisgyblion ysgolion yng Nghymru. Am gryfder. Am sylfaen i adeiladu arni.

Ond nawr mae angen gweledigaeth hirdymor ar y cyd yn ogystal â buddsoddiad, i'n galluogi i adeiladu ar ganlyniadau cadarnhaol y strategaethau tymor byr sydd wedi bod yn sail i lwyddiant cynllun Dyfodol Byd-eang hyd yma. I adeiladu ar hynny, mae angen gweledigaeth sydd nid yn unig yn diogelu'r ieithoedd sydd gennym, ond hefyd yn meithrin holl gyfoeth ieithyddol ein cymunedau. Mae angen cynllun sydd â'r grym, yr arfau a'r adnoddau i fynd i'r afael â'r heriau, dileu'r rhwystrau a sicrhau fod pob dysgwr, beth bynnag eu cefndir, yn cael cyfle i fanteisio ar addysg ieithoedd o ansawdd uchel sy'n gynaliadwy ar hyd eu holl siwrne addysgol. Mae Dyfodol Byd-eang wedi paratoi'r ffordd ar gyfer y gwaith hwnnw, ond nawr mae angen mwy – i sicrhau fod gan y strategaeth yr arfau a'r adnoddau angenrheidiol i lwyddo.

Mae *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2025* yn cynnig mewnwelediad, ond yn bwysicach, mae'n cynnig galwad i weithredu. Gadewch i ni fanteisio ar y foment hon i ymrwymo o'r newydd i addysgu a dysgu ieithoedd yng Nghymru. Gadewch i ni fod yn feiddgar. Gadewch i ni fod yn uchelgeisiol. Gadewch i ni sicrhau fod gan Gymru lais ac yn cael ei chlywed ar y llwyfan rhyngwladol.

**Ruth Cocks**
Cyfarwyddwr, British Council Cymru

# Cyflwyniad

Mae *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* yn arolwg blynyddol o ysgolion a gynhelir a cholegau ôl-16 yng Nghymru. Nod yr ymchwil yw casglu gwybodaeth am sefyllfa bresennol a thueddiadau addysgu a dysgu ieithoedd ledled Cymru. Mae'r adroddiad ar yr ymchwil yn anelu i: i) olrhain tueddiadau addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol dros y blynyddoedd; (ii) asesu effaith mesurau polisi o ran Ieithoedd Rhyngwladol; a (iii) adlewyrchu cyd-destun presennol addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol ar sail data meintiol a sylwadau a barn arbenigol athrawon a gasglwyd drwy'r arolygon.

Cafodd arolwg cyntaf *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* ei gynnal yn 2015, ac mae'n rhan o gyfres gyson o arolygon sy'n cael eu cynnal yn y Deyrnas Unedig; mae arolwg blynyddol wedi cael ei gynnal yn Lloegr ers 2002, arolwg bob dwy flynedd yng Ngogledd Iwerddon ers 2019 ac arolwg yn yr Alban ers 2024. Mae'r holl adroddiadau blaenorol ar gael ar wefan British Council y wlad berthnasol.[1] Mae adroddiadau *Tueddiadau Ieithoedd* yn cyflwyno darlun o newidiadau cyffredinol ym maes addysgu a dysgu ieithoedd y gwledydd a nodwyd – i sbarduno trafodaeth ac ystyriaeth ddyfnach o agweddau o addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol ymysg athrawon, arweinwyr ysgolion, academyddion, arolygwyr, llunwyr polisi, disgyblion ysgol a'r cyhoedd.

Cafodd tîm o ymchwilwyr o Brifysgol Queen's ym Melffast eu cytundebu gan British Council Cymru i gynnal arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2025*. Mae'r tîm wedi gwneud gwaith tebyg i'r British Council yn y gorffennol ac mae'n cynnwys aelodau sydd â phrofiad o addysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Deyrnas Unedig a thramor.

Ar ran British Council Cymru a Phrifysgol Queen's Belffast, hoffem ddiolch yn ffurfiol a didwyll i'r athrawon a gymerodd ran yn ein gwaith ymchwil ac a wnaeth yr adroddiad ymchwil yma'n bosibl. Diolchwn i chi am eich amser a'ch cefnogaeth barhaus.

## Prif ganfyddiadau 2025

- Mae dros wyth deg y cant o'r ysgolion a ymatebodd yn addysgu Iaith Ryngwladol ym mlwyddyn ysgol 2024/25, sy'n ddwywaith y ganran a nodwyd yn 2022;
- Nododd wyth deg y cant o'r ysgolion cynradd a ymatebodd mai'r athrawes/athro dosbarth sy'n cyflwyno'r gwersi iaith. Ond mae saith deg pedwar y cant o'r ymatebwyr hefyd yn nodi mai'r brif her sy'n eu hwynebu o ran ateb gofynion y cwricwlwm yw hyfedredd staff mewn ieithoedd rhyngwladol;
- Mae'r ymatebion a dderbyniwyd gan ysgolion cynradd yn adlewyrchu lluosieithrwydd yr ystafell ddosbarth gynradd. Mae'r ieithoedd sy'n cael eu haddysgu'n cynnwys Arabeg, Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg, Siapaneg, Mandarin, Sbaeneg ac Wrdw;
- Mae dwy ran o dair o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd yn amserlennu rhwng 1–2 awr yr wythnos yng Nghyfnod Allweddol 3 ar gyfer addysgu ieithoedd;
- Mae tua phedwar deg pump o wahanol ieithoedd a/neu dafodieithoedd yn cael eu siarad gan ddysgwyr ar draws yr ysgolion uwchradd a ymatebodd;
- Mae ffigurau dros dro ar gyfer arholiadau yng Nghymru'n dangos cynnydd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn Ffrangeg a Sbaeneg, ond gostyngiad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Safon Uwch mewn Almaeneg a Ffrangeg;
- Nododd dwy ran o bump o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd nad oedd ganddynt ddarpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol ôl-16. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn ysgolion â phroffil economaidd-gymdeithasol llai breintiedig;
- Mae gan bob un o'r colegau ôl-16 a ymatebodd ddysgwyr Ieithoedd Rhyngwladol ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 ym mlwyddyn ysgol 2024/25. Nododd dau goleg fod ganddynt fwy nag ugain o ddysgwyr Ieithoedd Rhyngwladol ym Mlwyddyn 12 yn 2024/25.

1 Gweler: https://www.britishcouncil.org/research-insight/research-series/language-trends.

# Cyd-destun a chefndir polisi

Cafodd y Cwricwlwm i Gymru (CiG) ei gyflwyno mewn ysgolion a gynhelir yn 2022, gan ddarparu canllaw statudol i ysgolion ei ddilyn i sicrhau gwell cefnogaeth i ddysgwyr ar eu siwrne addysgol. Nod pennaf y fframwaith yw sicrhau cyfle cyfartal o ran *"y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen ar ein pobl ifanc ar gyfer cyflogaeth, dysgu gydol oes a dinasyddiaeth weithgar"* (CiG, 2022). Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn darparu canllawiau ac yn amlinellu disgwyliadau cyffredin i ysgolion ar gyfer cynllunio ac asesu eu cwricwlwm. Ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu mae addysg 'Ieithoedd Rhyngwladol' yn cwmpasu addysgu ieithoedd heblaw am Gymraeg a Saesneg, gan gynnwys ieithoedd cartref a chymuned, ieithoedd modern a clasurol, ac Iaith Arwyddion Prydain (CiG, 2021).

Ochr yn ochr â'r CiG, mae cynllun Dyfodol Byd-eang Llywodraeth Cymru yn anelu i hybu ethos lluosieithog y CiG, a chefnogi addysg ieithoedd mewn ysgolion.[2] Cafodd cynllun Dyfodol Byd-eang ei lansio gan Lywodraeth Cymru am y tro cyntaf yn 2015 yn dilyn diddymu CILT Cymru (Canolfan Genedlaethol Cymru ar gyfer Ieithoedd) a oedd wedi bod ar waith ers 2002. Mae gan y cynllun nifer o amcanion a mentrau strategol, gan gynnwys y Prosiect Mentora Ieithoedd Tramor Modern – rhaglen lwyddiannus ac uchel ei pharch sy'n darparu cefnogaeth uniongyrchol o ansawdd uchel i ysgolion uwchradd ar gyfer addysgu a dysgu ieithoedd ac astudio Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU.[3]

Er gwaethaf y camau cadarnhaol hyn i hybu twf cymdeithas luosieithog, mae heriau arwyddocaol o hyd ym maes addysg ieithoedd. Dangosodd ein harolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* blaenorol yn 2024 fod llai a llai o ddysgwyr ieithoedd wedi dod drwy'r system dros y ddegawd ddiwethaf. Roedd lleisiau o ystafelloedd dosbarth Ieithoedd Rhyngwladol yn mynegi pryderon am ddyfodol addysgu a dysgu ieithoedd, gan dynnu sylw at ymarferoldeb meintiau dosbarthiadau, ariannu ym maes Ieithoedd Rhyngwladol a niferoedd isel o ddysgwyr. Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddwyd newyddion am fwriad i gau Adran Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd. Gan fod dros 60 y cant o fyfyrwyr israddedig Cymru sydd ar lwybrau iaith yn astudio ym Mhrifysgol Caerdydd, byddai gwireddu'r bygythiad hwn yn cael effaith arwyddocaol ar ddyfodol addysgu a dysgu ieithoedd yng Nghymru (Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Ieithoedd, 2025). Cafodd deiseb i achub yr adran gan gyn-fyfyriwr yn Adran Ieithoedd Modern Prifysgol Caerdydd ei harwyddo gan dros 13,000 o gefnogwyr (Achub Ieithoedd Caerdydd, 2025). Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid yw'r Brifysgol yn bwrw ymlaen â'r bwriad i gau'r adran, ac mae'r cynllun arfaethedig i dorri 400 o swyddi wedi cael ei gwtogi i 138 o swyddi (BBC, 15 Mai 2025). Ond, mae dyfodol addysg ieithoedd mewn addysg uwch yng Nghymru yn dal yn amwys, ac mae mesurau arfaethedig fel hyn yn tynnu'n groes i ethos luosieithog y Cwricwlwm i Gymru a chynllun Dyfodol Byd-eang.

Ym mis Gorffennaf 2025, cyhoeddodd Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, adolygiad thematig o addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion.[4] Roedd cyfradd ymateb yr arolwg hwnnw'n debyg i gyfradd ymateb *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2025*, ond nid oeddem yn gallu canfod os mai'r un ysgolion a ymatebodd i'n harolwg ni ag a wnaeth i arolwg Estyn. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at enghreifftiau o lwyddiant ysgolion cynradd i ddatblygu Ieithoedd Rhyngwladol yn y cwricwlwm. Mae enghreifftiau o addysgu a dysgu o ansawdd da mewn ysgolion cynradd, uwchradd a phob oed lle bu Estyn ar ymweliad. Ond, yn ôl Estyn, mae gwaith cynllunio cwricwlwm ac ansawdd addysgu'n dal yn anghyson. O ganlyniad, mae gormod o amrywiaeth yn ansawdd profiadau'r dysgwyr a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt o ran Ieithoedd Rhyngwladol. Yn ogystal, canfu Estyn fod trefniadau pontio rhwng y cyfnodau cynradd ac uwchradd yn aml yn wan, a bod y nifer sy'n dewis ieithoedd ar gyfer TGAU neu Safon Uwch yn isel. Ag ystyried hyn oll, mae dyfodol addysg Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru'n dal i fod yn heriol.

Dyma oedd cefndir a chyd-destun ein proses fel tîm ymchwil o gasglu data ar gyfer *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2025*.

2 Am fwy o wybodaeth am gynllun Dyfodol Byd-eang, gweler: https://www.llyw.cymru/dyfodol-byd-eang-cynllun-i-wella-hyrwyddo-ieithoedd-rhyngwladol-yng-nghymru-2022-i-2025-html.
3 Am fwy o wybodaeth am y cynllun, gweler: https://www.cardiff.ac.uk/cy/modern-languages/about-us/engagement/foreign-language-student-mentoring .
4 Adroddiad cyflawn Estyn: https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/ieithoedd-rhyngwladol-mewn-ysgolion-yng-nghymru/.

# Amlinelliad o’r ymchwil

Cyn cychwyn casglu’r data, cafwyd cymeradwyaeth foesegol gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol y Gwyddorau Cymdeithasol, Addysg a Gwaith Cymdeithasol ym Mhrifysgol Queen’s Belffast. Rhoddodd yr holl gyfranogwyr gydsyniad gwirfoddol a gwybodus i gymryd rhan. Cynhaliwyd yr ymchwil i’r safonau moesegol uchaf.

Cafodd yr ymchwil ei lywio gan y cwestiwn canlynol: ‘Beth yw sefyllfa bresennol addysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16 yng Nghymru?’.

I ateb y cwestiwn defnyddiwyd dull cymysg, gan adeiladu ar adroddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* blaenorol. Roedd dull yr ymchwil yn cynnwys tri arolwg – un yr un ar gyfer ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd a cholegau ôl-16. Roedd yr arolygon ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Roedd yr arolygon yn cynnwys rhai cwestiynau caeëdig (i’w dadansoddi’n feintiol), a rhai cwestiynau agored (ar gyfer sylwebaeth ansoddol).

Cafodd cwestiynau’r arolwg eu datblygu gan y tîm ymchwil ym misoedd cynnar 2025. Yna, cawsant eu mireinio mewn ymgynghoriad â phanel o weithwyr proffesiynol o’r maes addysg yng Nghymru a drefnwyd gan British Council Cymru. Cafodd yr arolygon eu hanfon drwy e-bost at sylw’r Pennaeth neu’r Pennaeth Ieithoedd Modern. Fe’u hanfonwyd at 866 o ysgolion cynradd, 165 o ysgolion uwchradd ac 11 o golegau ôl-16. Yn ogystal, roedd dolenni i gymryd rhan yn yr arolwg ar gael ar sianeli cyfryngau cymdeithasol British Council Cymru, sy’n golygu fod pennu cyfradd ymateb union gywir yn anodd.

Gwahoddwyd yr ysgolion a’r colegau i gyflwyno un ymateb yn unig i’r arolygon; lle derbyniwyd mwy nag un ymateb gan yr un sefydliad, cafodd yr ymateb cyntaf a dderbyniwyd ei gynnwys yn y set data. O ran yr arolygon, cafodd yr ymatebion i’r cwestiynau caeëdig eu dadansoddi drwy ddefnyddio ystadegau disgrifiadol, tra dadansoddwyd yr ymatebion i’r cwestiynau agored drwy ddull dadansoddi thematig.

Ar ôl mireinio’r setiau data i neilltuo ymatebion dyblyg, roedd y gyfradd ymateb fel a ganlyn:


| | **Sail (nifer yr e-byst a anfonwyd)** | **Nifer o ymatebion y gellid eu defnyddio** | **Cyfradd ymateb** |
|---|---|---|---|
| **Arolwg Ysgolion Cynradd** | 866 | 50 | 6% |
| **Arolwg Ysgolion Uwchradd** | 165 | 57 | 34.5% |
| **Arolwg Colegau ôl-16** | 11 | 6 | 54.5% |

Tabl 1: Cyfradd ymateb i arolygon gan yr ysgolion cynradd ac uwchradd a’r colegau ôl-16

# Ffigurau arholiadau cyhoeddus


Mae ffigurau cofrestriadau dros dro ar gyfer TGAU yng Nghymru yn 2025 yn dangos cynnydd ar gyfer Ffrangeg (2,269 o gofrestriadau yn 2025; 2,126 yn 2024) a Sbaeneg (1,591 yn 2025; 1,359 yn 2024), tra bu gostyngiad bach yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Almaeneg i 432 yn 2025 (Ffigwr 1). Mae Ffigwr 2 yn dangos gostyngiad bach yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Ieithoedd Modern Eraill, o 766 yn 2024, i 735 yn 2025.

## Cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg 2015–2025





Ffigwr 1: Nifer dros dro'r cofrestriadau ar gyfer TGAU Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yng Nghymru rhwng 2015–2025 (Ffynhonnell: Y Cyd-gyngor Arholi-adau (JCQ))

## Cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn ieithoedd heblaw am Ffrangeg, Almaeneg, Sbaeneg a Chymraeg 2015–2025





Ffigwr 2: Nifer dros dro'r cofrestriadau ar gyfer TGAU mewn Ieithoedd Modern Eraill yng Nghymru 2015–2025 (Ffynhonnell: JCQ)

Mae ffigurau cofrestriadau ar gyfer Safon Uwch yng Nghymru yn 2025 yn dangos gostyngiad serth ar gyfer Ffrangeg (169 yn 2025, o'i gymharu â 242 yn 2024) ac Almaeneg (42 yn 2025, o'i gymharu â 62 yn 2024) (Ffigwr 3). Mae nifer y cofrestriadau ar gyfer Sbaeneg wedi cynyddu ychydig o 139 yn 2024, i 141 yn 2025. Mae'r cynnydd yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Ieithoedd Modern Eraill o 126 yn 2024, i 143 yn 2025 yn newyddion cadarnhaol (Ffigwr 4).




Ffigwr 3: Nifer y cofrestriadau dros dro ar gyfer Safon Uwch mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg yng Nghymru 2015–2025 (Ffynhonnell: JCQ)




Ffigwr 4: Nifer y cofrestriadau dros dro ar gyfer Safon Uwch mewn Ieithoedd Modern Eraill yng Nghymru 2015–2025 (Ffynhonnell: JCQ)

# Canfyddiadau'r arolwg ysgolion cynradd

## Proffil yr ysgolion cynradd

Yn 2025, nododd cyfrifiad ysgolion Llywodraeth Cymru bod 1,199 o ysgolion cynradd yng Nghymru. Ar gyfer arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2025*, e-bostiwyd gwahoddiad uniongyrchol i gymryd rhan yn yr arolwg i 866 o ysgolion. Yn Haf 2025, gwnaed galwadau ffôn ac anfonwyd ebyst i 80 o ysgolion a ddewiswyd ar hap – i hybu cyfradd cwblhau'r arolwg. Yn dilyn proses fireinio i dynnu arolygon dyblyg a/neu arolygon heb eu cwblhau, cafodd 50 o arolygon eu rhoi o'r neilltu. Mae'r ymatebion a dderbyniwyd gan ysgolion cynradd i arolwg *Tueddiadau Ieithoedd 2025* yn adlewyrchu amrywiaeth o ran cyfrwng yr ysgolion, lleoliad daearyddol ac ardaloedd llywodraeth leol (Gweler Tablau 2 a 3).

| **Cyfrwng yr ysgol** | **Canran o ymatebion** |
|---|---|
| Cyfrwng Saesneg | 88.1% |
| Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o Gymraeg | 2.4% |
| Cyfrwng Cymraeg | 9.5% |

Tabl 2: Cyfrwng yr ysgolion cynradd a gymerodd ran yn yr arolwg

| **Lleoliad Daearyddol** | **Ardaloedd Awdurdodau Lleol** | **Nifer o ysgolion a ymatebodd (cyfanswm = 50)** | **Canran yr ysgolion a ymatebodd** |
|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | Ynys Môn,<br>Gwynedd,<br>Conwy,<br>Sir Ddinbych,<br>Sir Fflint,<br>Wrecsam | 10 | 20% |
| **De Orllewin a Chanolbarth Cymru** | Powys,<br>Ceredigion,<br>Sir Benfro,<br>Sir Gaerfyrddin,<br>Abertawe,<br>Castell-nedd Port Talbot | 13 | 26% |
| **Canol De Cymru** | Pen-y-bont ar Ogwr,<br>Bro Morgannwg,<br>Rhondda Cynon Taf,<br>Merthyr Tudful,<br>Caerdydd | 15 | 30% |
| **De Ddwyrain Cymru** | Caerffili,<br>Blaenau Gwent,<br>Torfaen,<br>Sir Fynwy,<br>Casnewydd | 12 | 24% |

Tabl 3: Proffil daearyddol yr ysgolion cynradd a ymatebodd i'r arolwg

Mae cyfradd ymateb arolygon ysgolion cynradd eleni yn is nag mewn blynyddoedd blaenorol (6 y cant yn 2025; 8 y cant yn 2023; 10 y cant yn 2022). Roeddem wedi rhagweld y byddai mwy o bwysau nag erioed ar ysgwyddau arweinwyr, athrawon ac ysgolion yn sgil rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith, ac y gallai hynny effeithio ar gyfraddau ymateb y blynyddoedd dilynol. Yn 2024, penderfynwyd cyfnewid y set data sylfaenol am set data a seiliwyd ar bosteri a luniwyd gan ddysgwyr – i wrthbwyso unrhyw flinder posib o ran cwblhau arolygon mewn cyd-destun fel hwn. Mae'n bosib fod cyfradd ymateb arolwg eleni'n adlewyrchu baich gwaith a newid ym mlaenoriaethau ysgolion cynradd, yn ogystal â'r risg arferol fod pobl yn blino ar ymchwil ac arolygon.

## Prydau Ysgol am Ddim


O ran proffil cymdeithasol-economaidd yr ysgolion, cyfrifwyd y ganran o ddysgwyr ym mhob ysgol a ymatebodd oedd â hawl i gael prydau ysgol am ddim – ar sail data cyfredol Llywodraeth Cymru (gweler Tabl 4). Mae'r tabl yn dangos ystod o 17 y cant i 24 y cant ym mhob cwintil, sy'n dangos fod gennym gynrychiolaeth gymharol gymesur o ysgolion mewn ardaloedd breintiedig a difreintiedig yn set data ein harolwg ysgolion cynradd eleni.

| Cwintil | Ystod y cwintil | Y ganran o ysgolion a ymatebodd |
|---|---|---|
| 1 – mwyaf breintiedig | 0.0–10.0% | 24% |
| 2 | 10.1–17.1% | 17% |
| 3 | 17.2–25.0% | 19% |
| 4 | 25.1–37.4% | 17% |
| 5 – lleiaf breintiedig | 37.5% ac uwch | 24% |

Tabl 4: Cwintiliau prydau ysgol am ddim, a'r ganran o ysgolion a ymatebodd ym mhob cwintil (gan ddefnyddio data cyfrifiad 2025 o brydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd)

## Addysg Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion cynraddd

Yn 2024/25, nododd dros 80 y cant o'r ysgolion cynradd a ymatebodd eu bod yn addysgu Iaith Ryngwladol o fewn amser y cwricwlwm fel rhan o'r diwrnod ysgol. Mae'r ffigwr yma'n ddwywaith y ganran o ysgolion cynradd oedd yn addysgu ieithoedd yn 2022 (*Tueddiadau Ieithoedd Cymru*, 2022). Gan fod y mwyafrif o'r ymatebwyr yn nodi fod eu hysgol wedi dechrau addysgu Iaith Ryngwladol fel rhan o weithgareddau'r diwrnod ysgol lai na dwy flynedd yn ôl, mae'r ffigwr yma'n arwydd cadarn fod yr amcanion a nodir ym Maes Dysgu a Phrofiad Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu'r Cwricwlwm i Gymru (2022) ar gyfer addysgu a dysgu ieithoedd yn cael eu rhoi ar waith.




Ffigwr 5: Ymatebion o ran addysgu Iaith Ryngwladol yn ystod amser y cwricwlwm

O ran yr ieithoedd (heblaw am Gymraeg a Saesneg) sy'n cael eu cynnig mewn ysgolion cynradd o'r Blynyddoedd Cynnar i Flwyddyn 6, Ffrangeg yw'r iaith a nodir amlaf. Hefyd, nodir Arabeg, Almaeneg, Eidaleg, Siapaneg, Mandarin, Sbaeneg ac Wrdw.

| | **Groeg Hynafol** | **Arabeg** | **Ffrangeg** | **Almaeneg** | **Eidaleg** | **Siapaneg** | **Lladin** | **Mandarin** | **Sbaeneg** | **Wrdw** | **Arall** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blynyddoedd Cynnar | 0.0% | 0.0% | 23.8% | 2.4% | 7.1% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 9.5% | 2.4% | 28.6% |
| Blwyddyn 1 | 0.0% | 0.0% | 31.0% | 7.1% | 4.8% | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 11.9% | 2.4% | 26.2% |
| Blwyddyn 2 | 0.0% | 0.0% | 31.0% | 4.8% | 4.8% | 0.0% | 0.0% | 2.4% | 14.3% | 0.0% | 21.4% |
| Blwyddyn 3 | 0.0% | 2.4% | 42.9% | 7.1% | 4.8% | 2.4% | 0.0% | 7.1% | 16.7% | 0.0% | 21.4% |
| Blwyddyn 4 | 0.0% | 0.0% | 42.9% | 9.5% | 2.4% | 0.0% | 0.0% | 4.8% | 28.6% | 0.0% | 21.4% |
| Blwyddyn 5 | 0.0% | 2.4% | 57.1% | 7.1% | 4.8% | 0.0% | 0.0% | 2.4% | 33.3% | 0.0% | 23.8% |
| Blwyddyn 6 | 0.0% | 2.4% | 61.9% | 11.9% | 4.8% | 2.4% | 0.0% | 4.8% | 31.0% | 0.0% | 21.4% |

Tabl 5: Ieithoedd Rhyngwladol a gynigir (fel canran) gan yr ysgolion cynradd a ymatebodd (sy'n addysgu Ieithoedd Rhyngwladol) o'r Blynyddoedd Cynnar i Flwyddyn 6

Ym mlwyddyn ysgol 2024/25 gwelir bod mwy o ysgolion wedi dewis 'Ieithoedd Eraill' yn y rhestr o ieithoedd a addysgir nag mewn arolygon *Tueddiadau Ieithoedd* blaenorol a oedd yn gofyn yr un cwestiwn. Gwelir bod y ganran o ymatebion sy'n nodi 'Ieithoedd Eraill' ar ei huchaf yn y Blynyddoedd Cynnar. Mae 29 y cant o'r ysgolion a ymatebodd yn nodi eu bod yn addysgu 'ieithoedd eraill' yn y cyfnod hwn. Mae'r ganran yn gostwng i 21 y cant ar gyfer ieithoedd eraill a addysgir ym Mlwyddyn 6. Ni wnaeth pob ysgol a ymatebodd gynnwys manylion pa ieithoedd y maent yn eu haddysgu yn y categori hwn. Ond, ymysg yr ysgolion sydd wedi nodi pa ieithoedd eraill a addysgir ganddynt, Iaith Arwyddion Prydain yw'r un a nodir amlaf. Hefyd, nodwyd Makaton, Pwyleg a Phortiwgaleg yn y categori hwn. Yng nghyfnod y Blynyddoedd Cynnar, mae'n bosib fod y ffigurau'n adlewyrchu amrywiaeth cymunedau ieithyddol yr ysgolion a ymatebodd, sy'n esbonio pam fod mwy o amrywiaeth yn yr ieithoedd a addysgir. Gall hyn gynnwys addysgu gwahanol ieithoedd treftadaeth a chartref, sy'n un o ddisgwyliadau amlieithog y cwricwlwm newydd (Gorrara et al. 2020).

## Yr amser a roddir i addysgu a dysgu ieithoedd mewn ysgolion cynradd

O ran yr amser a roddir i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion cynradd, mae'r dystiolaeth yn dangos tirlun cymysg a dulliau gweithredu sy'n amrywio o ysgol i ysgol. Mae dros 40 y cant o'r ysgolion cynradd sy'n nodi eu bod yn addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn y Blynyddoedd Cynnar hefyd yn nodi nad oes unrhyw amser penodol wedi'i neilltuo ar gyfer addysg iaith. Yn yr achosion hynny, mae'n bosib fod yr addysgu ieithyddol wedi'i integreiddio i fywyd a gweithgareddau bob dydd yr ystafell ddosbarth, ac felly ni chaiff ei ystyried fel gweithgaredd ar wahân. Fel arall, mae hefyd yn bosib fod yr ymateb hwn yn dangos nad oes amser penodol yn cael ei bennu yn ystod yr wythnos ysgol ar gyfer addysgu ieithoedd. Fel mae Tabl 6 yn dangos, '30–45 munud yr wythnos' yw'r cyfnod o amser penodedig ar gyfer addysg iaith a nodir amlaf gan ymatebwyr. Mae hynny'n llai na'r isafswm amser sydd ei angen i sicrhau cynnydd mesuradwy mewn  hyfedredd ieithyddol – sef 1 awr – fel y dangoswyd gan ymchwil blaenorol (Graham et al. 2017).

O ran mesur cynnydd dysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion cynradd, mae dros hanner yr ysgolion a ymatebodd (57 y cant) yn nodi nad ydynt yn asesu na chofnodi cynnydd addysg ieithyddol eu dysgwyr. Mae tua chwarter yr ysgolion (24 y cant) yn nodi eu bod yn cynnal asesiadau anffurfiol, ac mae 10 y cant o'r ysgolion a ymatebodd yn nodi eu bod yn cynnal asesiad ffurfiol o bob dysgwr. Mae dulliau o gofnodi cynnydd yn cynnwys: cofnodion grŵp o gynnydd dysgwyr, defnydd o fframwaith Mapiau Cynnydd Meysydd Dysgu a chontinwwm Ieithoedd Rhyngwladol.

Yn wahanol i ddata blaenorol *Tueddiadau Ieithoedd Cymru*, mae data sylfaenol eleni'n dangos fod nifer fach o ysgolion yn cynnig mwy nag awr (ac mewn rhai achosion, dwy awr) o addysg iaith bob wythnos ar draws yr holl flynyddoedd cynradd.


| | **Dim amser** | **Llai na 30 munud** | **30–45 munud** | **46 munud – 1 awr** | **Rhwng 1 awr a 2 awr** | **Mwy na 2 awr** | **Arall** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Blynyddoedd Cynnar** | 40.5% | 40.5% | 7.1% | 2.4% | 0.0% | 2.4% | 4.8% |
| **Blwyddyn 1** | 35.7% | 28.6% | 26.2% | 2.4% | 0.0% | 2.4% | 2.4% |
| **Blwyddyn 2** | 35.7% | 31.0% | 21.4% | 4.8% | 0.0% | 2.4% | 2.4% |
| **Blwyddyn 3** | 16.7% | 31.0% | 26.2% | 21.4% | 0.0% | 2.4% | 0.0% |
| **Blwyddyn 4** | 14.3% | 28.6% | 31.0% | 21.4% | 0.0% | 2.4% | 0.0% |
| **Blwyddyn 5** | 7.1% | 19.0% | 35.7% | 28.6% | 4.8% | 2.4% | 0.0% |
| **Blwyddyn 6** | 7.1% | 16.7% | 33.3% | 33.3% | 4.8% | 2.4% | 0.0% |

Tabl 6: Yr amser a roddir bob wythnos i addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn yr ysgolion cynradd a ymatebodd

## Cyflwyno, cyflawni, staff, a dulliau addysgu Ieithoedd Rhyngwladol

Mae tystiolaeth arolwg eleni'n dangos fod addysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion cynradd yn dal i fod yn rhan o rôl yr athrawes/athro dosbarth. Nododd wyth deg y cant o'r ysgolion cynradd a ymatebodd mai'r athrawes/athro dosbarth sy'n cyflwyno addysg ieithoedd; nododd deg y cant fod arbenigwr allanol yn cyflwyno gwersi iaith i'r dysgwyr; a nododd pump y cant yn unig eu bod yn manteisio ar gysylltiad ag ysgol uwchradd. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ysgolion yn nodi eu bod wedi manteisio ar gyfleoedd Dysgu Proffesiynol yn benodol ar gyfer ieithoedd – drwy blatfformau ar-lein, hyfforddiant mewnol a/neu hyfforddiant drwy'r consortiwm lleol. Mae rhai ysgolion yn nodi eu bod wedi manteisio ar Ddysgu Proffesiynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sydd wedi arwain at ennill achrediad Iaith Arwyddion Prydain. Mae mwyafrif yr ysgolion a ymatebodd yn nodi nad ydynt wedi ennill unrhyw gymwysterau Ieithoedd Rhyngwladol drwy Ddysgu Proffesiynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Wrth ymateb i gwestiwn am y prif heriau sy'n wynebu eu hysgolion o ran ateb gofynion addysgu Ieithoedd Rhyngwladol y cwricwlwm, nodwyd 'hyfedredd staff mewn Ieithoedd Rhyngwladol' gan dri chwarter yr ysgolion a ymatebodd.

Gyda golwg ar y twf yn y defnydd o adnoddau technoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI) ym myd addysg, holwyd yr ysgolion cynradd am eu dull gweithredu a'u defnydd o dechnoleg AI. Nododd dros 50 y cant o'r ymatebwyr nad oeddent yn ei ddefnyddio o gwbl, a bod athrawon yn ansicr o sut orau i'w ddefnyddio (Ffigwr 6).





Ffigwr 6: Defnydd ymatebwyr o dechnoleg Deallusrwydd Artiffisial wrth addysgu Ieithoedd Rhyngwladol mewn ysgolion cynradd

Mae data ein harolwg ysgolion cynradd yn dangos fod dwy ran o dair o'r ysgolion a ymatebodd naill ai 'yn barod iawn' neu 'rhywfaint yn barod' i gynnwys Iaith Ryngwladol fel rhan o ofynion statudol y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn ddarlun tebyg i arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023*. O ran cynllunio ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol, mae dros chwarter yr ysgolion a ymatebodd yn nodi eu bod yng nghyfnod cynnar y gwaith cynllunio ar gyfer hyn, a llai na thraean yn ceisio sicrhau darpariaeth sy'n cyd-fynd â'r hyn a gynigir gan yr ysgol uwchradd leol. (Tabl 7)

| **Dull gweithredu arfaethedig ar gyfer addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn 2024/25** | **Canran o'r ymatebwyr** |
|---|---|
| Nid ydym mewn sefyllfa i allu addysgu Ieithoedd Rhyngwladol | 8% |
| Rydym yng nghyfnod cynnar y cynllunio ar gyfer ein darpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol | 26% |
| Rydym yn cynllunio i gynyddu ein darpariaeth ar gyfer un Iaith Ryngwladol, ac yn ceisio sicrhau fod hyn yn cyd-fynd â'n hysgol uwchradd leol | 30% |
| Rydym yn bwriadu cyflwyno nifer o ieithoedd rhyngwladol i'n dysgwyr | 26% |
| Rydym yn bwriadu addysgu Iaith Arwyddion Prydain | 6% |
| Nid wyf yn gwybod | 0% |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | 4% |

Tabl 7: Dulliau gweithredu arfaethedig ar gyfer addysgu Ieithoedd Rhyngwladol yn 2024/25

Gall y cysylltiad gydag ysgolion uwchradd fod yn elfen allweddol o ran pontio, adeiladu ar sgiliau iaith a ddysgwyd eisoes, ac ysgogi dysgwyr i barhau i ddysgu ieithoedd. Nododd dros ddwy ran o dair o'r ysgolion cynradd a ymatebodd i'r arolwg fod ganddynt gysylltiad ag adrannau ieithoedd eu hysgolion uwchradd lleol.




Ffigwr 7: Canran yr ysgolion cynradd a ymatebodd sydd mewn cysylltiad ag adrannau iaith eu hysgolion uwchradd lleol o ran addysgu a dysgu ieithoedd

## Cysylltiadau allanol ysgolion cynradd


Ar wahân i gysylltiadau ag ysgolion uwchradd lleol, nododd 50 y cant o'r ymatebwyr fod eu hysgolion wedi manteisio ar gyfleoedd i'w dysgwyr a'u hathrawon ymgysylltu'n rhyngwladol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithio gydag ysgol bartner y tu allan i'r DU, digwyddiadau a hyfforddiant y British Council, cyflogi Cynorthwywyr Iaith a chymryd rhan mewn prosiectau rhyngwladol.

| Cyfleoedd i ymgysylltu'n rhyngwladol | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Mae gan ein hysgol un neu fwy o ysgolion partner dramor | 26% |
| Digwyddiadau a hyfforddiant a drefnir gan y British Council, fel Cerdd Iaith | 22% |
| Cymryd rhan mewn prosiectau rhyngwladol | 28% |
| Rydym yn cyflogi Cynorthwywyr Iaith | 4% |
| Dim | 50% |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | 2% |

Tabl 8: Cyfleoedd i ddysgwyr ac athrawon ymgysylltu'n rhyngwladol yn yr ysgolion cynradd a ymatebodd (roedd ymatebwyr yn cael ticio pob dewis perthnasol)


Yn ogystal, nododd rhai ysgolion fod ganddynt gysylltiadau â sefydliadau sy'n hybu addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol.

## Cysylltiadau â sefydliadau allanol i hybu addysgu a dysgu Ieithoedd Rhyngwladol




Ffigwr 8: Cysylltiadau â sefydliadau allanol sy'n hybu addysgu a dysgu ieithoedd (roedd ymatebwyr yn cael ticio pob dewis perthnasol)

Mae cysylltiadau allanol fel hyn yn cael eu defnyddio gan athrawon i'w helpu i gyflawni gofynion Ieithoedd Rhyngwladol y cwricwlwm. Cyfeiriodd ymatebwyr at ddefnyddio adnoddau o sawl ffynhonnell wahanol gan gynnwys sefydliadau elusenol sy'n hybu ieithoedd arwyddion, deunydd a gynhyrchir gan y consortia a mentrau gan brifysgolion.




Ffigwr 9: Cwmwl geiriau – y gwahanol fathau o adnoddau a ddefnyddir gan yr ysgolion cynradd a ymatebodd

## Heriau a chefnogaeth i ysgolion cynradd o ran addysgu Ieithoedd Rhyngwladol

Er gwaethaf cymorth gan sefydliadau allanol a'r adnoddau allanol sydd ar gael i ysgolion cynradd i helpu gyda chyflwyno addysg ieithoedd, mae'n amlwg fod nifer o heriau'n wynebu athrawon ac ysgolion o hyd. Wrth ystyried heriau ateb gofynion newydd y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol, nodwyd y ffactorau canlynol gan ymatebwyr arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* eleni: dim digon o amser yn amserlen yr ysgol ar gyfer ieithoedd, cystadleuaeth gydag ieithoedd eraill, a hyfedredd staff (gweler Tabl 9).

| **Y prif heriau o ran ateb gofynion newydd Ieithoedd Rhyngwladol y Cwricwlwm i Gymru** | **Y ganran o ymatebwyr** |
|---|---|
| Hyfedredd staff mewn Ieithoedd Rhyngwladol | 74% |
| Dim digon o amser cwricwlwm yn gyffredinol | 60% |
| Cystadleuaeth gyda Chymraeg a Saesneg am amser cwricwlwm | 58% |
| Ariannu ac adnoddau | 38% |
| Ffeindio athrawon sy'n gallu addysgu Iaith Ryngwladol | 36% |
| Mynediad at Ddysgu Proffesiynol yn benodol ar gyfer ieithoedd | 36% |
| Yr angen i ddefnyddio amser cwricwlwm i 'ddal i fyny' mewn pynciau eraill yn sgil Covid-19 | 28% |
| Effaith Covid-19 | 14% |
| Sicrhau cefnogaeth rhieni | 10% |
| Nid ydym yn wynebu unrhyw heriau penodol | 6% |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | 4% |

Tabl 9: Y prif heriau a nodwyd gan ymatebwyr ysgolion cynradd o ran ateb gofynion newydd Ieithoedd Rhyngwladol y Cwricwlwm i Gymru 2022 (roedd ymatebwyr yn cael ticio pob dewis perthnasol)

Ond, mae'r ysgolion hefyd yn gweld elfennau o'r drefn bresennol sy'n gweithio'n dda. Roedd ymatebion athrawon yn cynnwys:

"Mae ein prosiectau rhyngwladol yn y Blynyddoedd Cynnar a Blwyddyn 6 yn gweithio'n dda iawn. Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn dysgu iaith newydd yn sydyn ynghyd â'r Gymraeg. Maen nhw'n gweld pwrpas dysgu Ffrangeg am fod cyswllt rhwng y ddwy iaith. Rydyn ni'n defnyddio llyfrau a digwyddiadau go iawn i edrych ar ieithoedd ac yn ystyried gwahaniaethau diwylliannol yn ogystal ag elfennau cyffredin."

"Ym mlynyddoedd iau'r ysgol mae'r plant yn dysgu am wahanol ddiwylliannau fel rhan o'n Prosiectau Dysgu, ac mae hynny'n cynnwys dysgu am wahanol ieithoedd. Er enghraifft, pan mae Bl 1 yn dysgu am Rio de Vida, maen nhw'n dysgu am Frasil a dysgu ychydig o Bortiwgaleg. Mae'r plant i gyd yn cael eu hannog i siarad iaith eu cartrefi – er enghraifft, wrth gymryd y gofrestr neu pan rydyn ni'n dysgu am wahanol wyliau/dathliadau."

"Rydyn ni'n dathlu ieithoedd cartref ein dysgwyr. Rydyn ni'n defnyddio dulliau blaengar i addysgu Ffrangeg a Sbaeneg ar draws y grwpiau oedran (gan gylchdroi'r iaith bob tymor). Rydyn ni newydd ennill Gwobr Sylfaenol y cynllun Gwobr Ysgolion Rhyngwladol, ac rydyn ni'n bwriadu cysylltu ag ysgol arall yn Ewrop. Rydyn ni'n cael llawer o gefnogaeth gan y consortiwm lleol i'n helpu i ddatblygu strategaethau addysgu – ac mae cyrsiau ar gael hefyd."

Wrth gyfeirio at y math o gefnogaeth ychwanegol y byddent yn ei groesawu, nodwyd y canlynol gan ymatebwyr:

"Swyddog cymorth lleol yn benodol ar gyfer ieithoedd"

"Adnoddau addas ar gyfer patrymau iaith sylfaenol nifer o wahanol ieithoedd"

# Canfyddiadau'r arolwg ysgolion uwchradd

## Proffil yr ysgolion uwchradd

Ym mis Ionawr 2025, nododd y cyfrifiad ysgolion blynyddol fod 174 o ysgolion uwchradd a gynhelir yng Nghymru. Roedd 40 o'r rhain yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac 134 yn ysgolion cyfrwng Saesneg.[5] Ym mlwyddyn ysgol 2024/25, cafodd arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* ei gwblhau gan 57 o ysgolion a gynhelir (gweler Tablau 10 ac 11 ar gyfer proffil yr ysgolion a ymatebodd). Anfonwyd gwahoddiad i gymryd rhan yn yr arolwg at 165 o ysgolion. Mae hynny'n golygu fod gennym gyfradd ymateb o oddeutu 34.5 y cant, gan gofio fod dolenni i'r arolwg ar gael ar gyfryngau cymdeithasol British Council Cymru hefyd. Ymatebodd wyth o ysgolion uwchradd yn Gymraeg, a phedwar deg naw yn Saesneg.

| Cyfrwng yr Ysgol | Canran yr ymatebion a dderbyniwyd |
|---|---|
| Dwyieithog | 14.0% |
| Cyfrwng Saesneg | 68.4% |
| Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o Gymraeg | 7.0% |
| Cyfrwng Cymraeg | 10.5% |

Tabl 10: Cyfrwng yr ysgolion uwchradd a ymatebodd i'r arolwg

| Lleoliad Daearyddol | Yn cynnwys yr awdurdodau lleol | Nifer yr ysgolion a ymatebodd (cyfanswm = 57) | Canran yr ysgolion a ymatebodd |
|---|---|---|---|
| **Gogledd Cymru** | Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir Fflint, Wrecsam | 11 | 19.3% |
| **De-orllewin a Chanolbarth Cymru** | Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot | 19 | 33.3% |
| **Canol De Cymru** | Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd | 19 | 33.3% |
| **De-ddwyrain Cymru** | Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd | 8 | 14.0% |

Tabl 11: Proffil daearyddol yr ysgolion uwchradd a ymatebodd

5 Ceir dadansoddiad pellach o ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg yng Nghymru yma: https://www.llyw.cymru/canlyniadaur-cyfrifiad-ys-golion-ionawr-2025-html.

I ddiffinio proffil cymdeithasol-economaidd yr ysgolion a ymatebodd, cyfrifwyd y ganran o'r dysgwyr oedd yn cael prydau ysgol am ddim. Defnyddiwyd data cyfrifiad ysgolion 2025 i gyfrif y ganran o ddysgwyr (hyd at 15 oed, ac yn derbyn gwarchodaeth drosiannol) oedd yn derbyn prydau ysgol am ddim. Rhannwyd yr ysgolion a ymatebodd i bump cwintil – o'r mwyaf breintiedig (â'r ganran isaf o ddysgwyr yn cael prydau ysgol am ddim) i'r lleiaf breintiedig (â'r ganran uchaf o ddysgwyr yn cael prydau ysgol am ddim). Mae Tabl 12 yn dangos anghydbwysedd yn ein proffil o ysgolion uwchradd, gan fod y rhan fwyaf o'r ysgolion a ymatebodd yng nghwintiliau 1 a 2. Mae'n bosibl fod hyn wedi arwain at ganfyddiadau mwy cadarnhaol na gwir sefyllfa'r rhan fwyaf o ysgolion.

| Cwintil | Ystod y Cwintil | Nifer yr ysgolion a ymatebodd | Canran o'r ysgolion a ymatebodd |
|---|---|---|---|
| 1 – mwyaf breintiedig | 0.0–16.4% | 20 | 35.1% |
| 2 | 16.5–20.9% | 11 | 19.3% |
| 3 | 21.0–27.1% | 9 | 15.8% |
| 4 | 27.2–35.7% | 7 | 12.3% |
| 5 – lleiaf breintiedig | 35.8% ac uwch | 10 | 17.5% |

Tabl 12: Cwintiliau prydau ysgol am ddim, a'r ganran o ysgolion uwchradd a ymatebodd sydd ym mhob cwintil (defnyddiwyd data cyfrifiad ysgolion 2025 i gyfrif nifer y dysgwyr hyd at 15 oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac yn derbyn gwarchodaeth drosiannol)

## Addysg Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3

Ym mlwyddyn ysgol 2024/25, roedd pob disgybl ym Mlwyddyn 7 yn astudio Ffrangeg mewn dros 80 y cant o'r ysgolion a ymatebodd. Ond mae'r ffigwr yma'n disgyn i 63 y cant ym Mlynyddoedd 8 a 9. Nododd nifer fach o ysgolion naill ai fod pob dysgwr, neu rai dysgwyr, yn astudio Almaeneg yng Nghyfnod Allweddol 3. Roedd pob disgybl ym Mlwyddyn 7 yn astudio Sbaeneg mewn llai na chwarter o'r ysgolion a ymatebodd, a dim ond un o'r rheini oedd yn ysgol yng nghwintil 5. Nodwyd ieithoedd eraill gan ymatebwyr hefyd, gan gynnwys Eidaleg a Mandarin.


| | Ffrangeg | Almaeneg | Sbaeneg | Arall |
|---|---|---|---|---|
| **Holl ddysgwyr Blwyddyn 7** | 82.5% | 7.0% | 22.8% | 3.5% |
| **Rhai dysgwyr ym Mlwyddyn 7** | 5.3% | 5.3% | 5.3% | 1.8% |
| **Holl ddysgwyr Blwyddyn 8** | 63.2% | 10.5% | 38.6% | 3.5% |
| **Rhai dysgwyr ym Mlwyddyn 8** | 8.8% | 5.3% | 8.8% | 1.8% |
| **Holl ddysgwyr Blwyddyn 9** | 63.2% | 5.3% | 29.8% | 3.5% |
| **Rhai dysgwyr ym Mlwyddyn 9** | 22.8% | 10.5% | 19.3% | 3.5% |

Tabl 13: Atebion i'r cwestiwn 'Pa Ieithoedd Rhyngwladol mae eich dysgwyr yn astudio yng Nghyfnod Allweddol 3?'

Gofynnwyd i'r ysgolion uwchradd pa gyfran o'u dysgwyr Blwyddyn 7–10 oedd yn dysgu mwy nag un Iaith Ryngwladol ym mlwyddyn ysgol 2024/25 (gweler Tabl 14). Nododd llai nag un o bob pump o'r ysgolion a ymatebodd fod pob un o'u dysgwyr yng Nghyfnod Allweddol 3 yn astudio iaith ychwanegol (heblaw am Gymraeg). Pan rennir atebion yr ymatebwyr yn gwintiliau, gwelir mai yn ysgolion cwintiliau 1–3 y ceir y nifer fwyaf o ddysgwyr sy'n astudio mwy nag un Iaith Ryngwladol. Doedd dim dysgwyr yn astudio mwy nag un iaith yn ysgolion cwintil 4, ac un yng nghwintil 5 (gweler Ffigwr 10). Fel gydag arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2024*, ni nododd unrhyw ysgol fod pob un o'u dysgwyr yn astudio iaith ychwanegol ym Mlwyddyn 10.

| | Pob dysgwr | Mwy na hanner | Rhai (5%–49%) | Llai na 5% | Dim |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blwyddyn 7** | 12.3% | 1.8% | 0.0% | 7.0% | 78.9% |
| **Blwyddyn 8** | 17.5% | 1.8% | 1.8% | 8.8% | 70.2% |
| **Blwyddyn 9** | 17.5% | 5.3% | 7.0% | 10.5% | 59.6% |
| **Blwyddyn 10** | 0.0% | 1.8% | 12.3% | 24.6% | 63.2% |

Tabl 14: Atebion i'r cwestiwn 'Beth yw'r gyfran o ddysgwyr yn eich ysgol sy'n astudio MWY NAG UN Iaith Ryngwladol (heblaw am Gymraeg) ym Mlynyddoedd 7–10'?




Ffigwr 10: Nifer yr ysgolion uwchradd a ymatebodd lle mae pob disgybl yn astudio mwy nag un Iaith Ryngwladol (fesul cwintil)

## Yr amser a roddir i ieithoedd ym Mlynyddoedd 7–10

Ym mlwyddyn ysgol 2024/25, roedd y ganran o ysgolion a nododd fod llai nag awr yn cael ei neilltuo ar gyfer addysgu iaith yn llai na chanran y llynedd. Er enghraifft, nododd 5.3 y cant o'r ysgolion a ymatebodd eu bod yn neilltuo llai nag awr o amser addysgu ar gyfer dysgwyr Blwyddyn 9 ym mlwyddyn ysgol 2024/25, o'i gymharu â 11 y cant ym mlwyddyn ysgol 2023/24. Ar gyfartaledd, roedd dwy ran o dair o'r ysgolion a ymatebodd yn neilltuo rhwng awr a dwy awr ar gyfer addysgu ieithoedd ym Mlynyddoedd 7–9. Roedd chwarter yr ysgolion a ymatebodd yn neilltuo rhwng dwy a thair awr. Ond, gwelir hefyd fod dysgwyr Blwyddyn 10 yn yr ysgolion a ymatebodd yn treulio mwy o amser yn dysgu ieithoedd; nododd 60 y cant o'r ysgolion a ymatebodd eu bod yn neilltuo rhwng dwy a thair awr gyfer addysgu ieithoedd bob wythnos. Roedd 17.5 y cant yn neilltuo rhwng tair a phedair awr yr wythnos, ac 14 y cant yn neilltuo mwy na phedair awr bob wythnos ar gyfer addysgu a dysgu ieithoedd (gweler Tabl 15).

| | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 | Blwyddyn 10 |
|---|---|---|---|---|
| **Llai nag awr** | 1.8% | 1.8% | 5.3% | 3.5% |
| **1–2 awr** | 66.7% | 71.9% | 61.4% | 5.3% |
| **2–3 awr** | 26.3% | 21.1% | 28.1% | 59.6% |
| **3–4 awr** | 5.3% | 7.0% | 7.0% | 17.5% |
| **Mwy na 4 awr** | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 14.0% |

Tabl 15: Cyfartaledd yr amser dosbarth a neilltuir ar gyfer addysgu Ieithoedd Rhyngwladol bob wythnos ym Mlynyddoedd 7–10

# Addysgu a dysgu ieithoedd yng Nghyfnod Allweddol 4

Nododd naw ysgol nad oedd yr un dysgwr ganddynt yn astudio ar gyfer TGAU mewn Iaith Ryngwladol ym mlwyddyn ysgol 2024/25, o'i gymharu ag un deg naw ysgol y flwyddyn flaenorol. Nododd un ysgol yn y cwintil prydau ysgol am ddim mwyaf breintiedig fod cant y cant o gohort Blwyddyn 10 yn astudio ar gyfer TGAU mewn Iaith Ryngwladol. Nododd saith o'r deg ysgol yng nghwintil 5 fod deg y cant o'u dysgwyr Blwyddyn 10 yn astudio ar gyfer TGAU mewn Iaith Ryngwladol. Yn gyffredinol, mae'r cynnydd yn y ganran o ddysgwyr Blwyddyn 10 sydd ar lwybrau astudio iaith yn 2025 yn galonogol (gweler Tabl 16).

| Y ganran o ddysgwyr Blwyddyn 10 sy'n astudio Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **0%** | **10%** | **20%** | **30%** | **40%** | **50%** | **60%** | **70%** | **80%** | **90%** | **100%** |
| **2022** | 14 | 30 | 14 | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **2023** | 20 | 25 | 12 | 8 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **2024** | 19 | 17 | 15 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **2025** | 9 | 21 | 19 | 2 | 4 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 |

Tabl 16: Y gyfradd o ddysgwyr ym Mlwyddyn 10 sy'n dysgu Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU neu gymhwyster Lefel 2 arall (ee Cyfathrebu Busnes Byd-eang – Lefel 2) i'r 10 y cant agosaf. Nodir rhifau crai'r ysgolion a ymatebodd. (Cyfanswm ymatebwyr, 2022 n=64; 2023 n=67; 2024 n=53; 2025 n=57)

Yn Nhabl 17, rhestrir yr ieithoedd a addysgir ym mlwyddyn ysgol 2024/25 yn yr ysgolion a ymatebodd. O ran y dewis ''Arall', nodwyd Tsieinëeg gan un ysgol, tra nododd eraill nad oedd unrhyw Iaith Ryngwladol wedi'i chynnwys yn amserlen yr ysgol. Mae dros hanner yr ysgolion sy'n addysgu Almaeneg yn ysgolion yng nghwintil 1. Mae Ffrangeg a Sbaeneg yn cael eu haddysgu mewn ysgolion ymhob un o'r pump cwintil. Ond o ran astudio iaith ar gyfer TGAU, Ffrangeg yw'r iaith fwyaf poblogaidd o hyd. Nododd bron i 80 y cant o'r ysgolion a ymatebodd fod Ffrangeg yn rhan o'u hamserlen.

| Ieithoedd Rhyngwladol sy'n cael eu hamserlennu | Y ganran o'r ysgolion a ymatebodd |
|---|---|
| Ffrangeg | 78.9% |
| Almaeneg | 15.8% |
| Sbaeneg | 54.4% |
| Arall | 7.0% |

Tabl 17: Ateb i'r cwestiwn Pa Ieithoedd Rhyngwladol sy'n cael eu hastudio ar hyn o bryd gan rai o'ch dysgwyr ac sy'n cael eu cynnwys fel pynciau cyflawn yn amserlen eich ysgol?

Holwyd yr ymatebwyr am bolisïau eu hysgolion o ran dysgu ac addysgu Ieithoedd Rhyngwladol:

| Polisi'r ysgol | Canran yr ysgolion a ymatebodd |
|---|---|
| Ni chynhelir gwersi os nad oes digon o ddysgwyr | 66.7% |
| Mae cyfyngiadau ein hamserlen yn golygu nad yw pob dysgwr yn gallu dewis astudio Iaith Ryngwladol | 38.6% |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | 17.5% |
| Mae'n bosib fod yr Uwch Dîm Rheoli yn cynghori rhai dysgwyr i beidio ag astudio Iaith Ryngwladol | 15.8% |
| Anogir dysgwyr â chyrhaeddiad is na'r cyfartaledd i beidio â dewis Iaith Ryngwladol | 14.0% |
| Mae'r ysgol yn argymell yn gryf y dylai pob dysgwr astudio Iaith Ryngwladol | 5.3% |
| Mae'r ysgol yn argymell yn gryf y dylai'r dysgwyr mwyaf abl yn academaidd astudio Iaith Ryngwladol | 1.8% |
| RHAID i bob dysgwr astudio Iaith Ryngwladol | 0.0% |

Tabl 19: Canfyddiad athrawon yr ysgolion uwchradd a ymatebodd o bolisïau eu hysgolion o ran dysgu ac addysgu Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 (caniatawyd rhoi mwy nad un ateb)

Mae dros 65 o'r ysgolion a ymatebodd yn nodi na chynhelir gwersi os nad oes digon o ddysgwyr (o'i gymharu â 75 y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd yn 2024). Er bod ysgolion ymhob un o'r 5 cwintil yn nodi fod hyn yn digwydd, mae'n ffactor sy'n effeithio'n anghyfartal ar ysgolion llai breintiedig. Os mai nifer fach yn unig o ddysgwyr sydd am astudio iaith, ni chynhelir gwersi o gwbl mewn chwech o'r saith ysgol yng nghwintil 4, ac wyth o'r deg ysgol yng nghwintil 5 – o'i gymharu ag oddeutu hanner yr ysgolion yng nghwintil 1. Mae'r amrywiaeth o ran yr isafswm o ddysgwyr sydd eu hangen i gynnal dosbarth TGAU mewn Iaith Ryngwladol yn amrywio – o sero, i gymaint ag 18 o ddysgwyr mewn un ysgol yng nghwintil 1. Nododd dau ddeg pedwar o ysgolion mai rhwng 10 a 15 o ddysgwyr yw'r isafswm gofynnol i gynnal dosbarth. Nododd un ysgol ei bod weithiau'n cynnal dosbarth â llai na'r nifer gofynnol o ddysgwyr.

Mae amserlennu'n dal i gyfyngu ar opsiynau dysgwyr o ran astudio Iaith Ryngwladol. Nodwyd hyn gan 39 y cant o'r ysgolion a ymatebodd – ar draws y pump cwintil. Ond dylid nodi hefyd fod y ganran wedi disgyn o'r 51 y cant a nododd hyn yn 2024 a 2023. Ni nododd unrhyw ysgol fod astudio Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU yn orfodol. Roedd sylwadau 'Arall' athrawon yn cynnwys:

"Mae gyda ni broses opsiynau ym Mlwyddyn 8 sy'n golygu nad oes rhaid i ddysgwyr ddysgu Iaith Ryngwladol ym Mlwyddyn 9. Mae'r dysgwyr hynny sy'n dewis astudio iaith ym Mlwyddyn 9 yn gorfod cyfyngu eu hopsiynau ar ddiwedd Blwyddyn 9. Mae hyn wedi cael effaith negyddol iawn ar y nifer sy'n parhau i ddysgu ym Mlwyddyn 10." (Ysgol yng nghwintil 1)

"Mae'r opsiwn i astudio Sbaeneg yn agored i bawb. Mae Sbaeneg mewn 1 bocs opsiwn allan o 3 bocs opsiwn ar gyfer Bl.10" (Ysgol yng nghwintil 2).

## Nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Ieithoedd Rhyngwladol ar gyfer TGAU

Gofynnwyd i'r ysgolion uwchradd a ymatebodd feddwl yn ôl dros y tair blynedd diwethaf ac ystyried pa newidiadau a welwyd, os o gwbl, yn nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 (gweler Tabl 19). Yn gyson â chanfyddiadau blaenorol, ni nododd unrhyw ysgol fod astudio Iaith Ryngwladol yn orfodol i bob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 4. Mae canran yr ymatebwyr sy'n credu fod mwy o ddysgwyr Cyfnod Allweddol 4 yn astudio Ieithoedd Rhyngwladol wedi mwy na dyblu ers 2024 – gan gynyddu o 13 y cant, i 30 y cant yn 2025. Ond wrth edrych yn fanylach ar y ffigwr yma, gwelir mai ysgolion yn y cwintiliau mwyaf breintiedig (1 a 2) yw dros dri chwarter yr ysgolion sy'n nodi gweld cynnydd yn y nifer o ddysgwyr ieithoedd. Mae angen ymchwil pellach i ganfod sut mae proffil cymdeithasol-economaidd ysgol yn effeithio ar nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio iaith. Tra bod bron i chwarter yr ysgolion a ymatebodd yn nodi nad ydynt yn gweld unrhyw duedd amlwg, nododd chwarter arall bod llai o ddysgwyr yn astudio Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4.

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| **Mae Ieithoedd Rhyngwladol yn orfodol i bob dysgwr yng Nghyfnod Allweddol 4** | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Mae mwy o ddysgwyr yn astudio Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 erbyn heddiw** | 10% | 7% | 13% | 30% |
| **Mae llai o ddysgwyr yn astudio Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 heddiw** | 55% | 49% | 38% | 25% |
| **Nifer tebyg i'r hyn a welwyd o'r blaen** | 16% | 15% | 21% | 19% |
| **Dim tuedd amlwg: mae'r niferoedd yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn** | 17% | 27% | 28% | 23% |
| **Arall (nodwch os gwelwch yn dda)** | 2% | 2% | 0% | 4% |

Tabl 19: Canfyddiadau athrawon o nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 dros y tair blynedd diwethaf

Mae'r athrawon a ymatebodd yn dal i gredu mai dylanwad Saesneg Byd-eang ynghyd â natur a chynnwys arholiadau allanol yw'r ddau faen tramgwydd mwyaf o ran cymell dysgwyr i astudio Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU (gweler Tabl 20). Yn 2024 nodwyd rhwystr arall gan athrawon, sef y fordd yr oedd ieithoedd yn cael eu hybu drwy'r ysgol gyfan fel opsiwn gyrfa – neu'n hytrach, y methiant i wneud hynny. Ond nid dyna'r sefyllfa yn 2025; yn hytrach, ystyrir bod diffyg amser cwricwlwm ac oriau amserlen anigonol ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnodau Allweddol 3 a 4 yn fwy o broblem wrth geisio cymell dysgwyr i'w hastudio ar gyfer TGAU.

| | **Canran yr ysgolion sy'n ystyried mai hwn yw'r prif rwystr** | |
|---|---|---|
| **Rhwystrau amlwg i ddewis astudio TGAU mewn Iaith Ryngwladol** | **2023/24** | **2024/25** |
| Saesneg Byd-eang (h.y. pwysigrwydd Saesneg fel un o brif ieithoedd y byd) | 25% | 28% |
| Natur a chynnwys arholiadau allanol | 21% | 19% |
| Diffyg hybu ieithoedd drwy'r ysgol gyfan fel opsiwn gyrfa | 13% | 5% |
| Dim digon o amser cwricwlwm | 11% | 14% |
| Amserlennu Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4 | 8% | 9% |
| Ieithoedd yn isel ar restr blaenoriaethau'r Uwch Dîm Rheoli | 6% | 2% |
| Amserlennu Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghyfnod Allweddol 3 | 6% | 11% |
| Dull marcio a graddio arholiadau allanol | 4% | 7% |
| Diffyg cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer eu sgiliau iaith y tu allan i'r ystafell ddosbarth | 4% | 4% |
| Effaith pandemig Covid-19 | 2% | 0% |
| Goblygiadau penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd (Brexit) | 0% | 2% |
| Diffyg mynediad at Ddysgu Proffesiynol i'r staff | 0% | 0% |

Tabl 20: Canran yr ysgolion a ymatebodd sy'n nodi mai'r rhwystrau a restrir uchod yw'r prif heriau o ran cymell dysgwyr i ddewis astudio Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU

Gofynnwyd cwestiwn dilynol i'r athrawon am unrhyw rwystrau eraill (na restrir uchod) a wynebir ganddynt wrth geisio darparu amgylchedd dysgu ac addysgu effeithiol; nododd nifer o'r ymatebwyr nad oedd rhwystrau eraill yn eu hwynebu, tra nododd eraill rai heriau ychwanegol:

"Mae'r diffyg opsiynau sydd ar gael ar gyfer TGAU yn rhwystr mawr o ran dewis astudio iaith. Mae diffyg cymwysterau NQT, athrawon yn gadael y proffesiwn am eu bod wedi ymlâdd yn llwyr, diffyg trafod, diffyg profiad o addysgu a monopoli'r CBAC yn ei wneud yn bwnc TGAU tipyn llai atyniadol."
(Ysgol yng nghwintil 3)

"Agwedd rhieni yn yr ardal hon, sy'n ardal ddifreintiedig iawn – dyw llawer o'r dysgwyr erioed wedi gadael eu milltir sgwâr, heb sôn am fynd dramor."
(Ysgol yng nghwintil 4)

"Yn anffodus mae sefyllfa gymdeithasol-economaidd ein hysgol yn golygu nad yw ieithoedd yn flaenoriaeth i fwyafrif y plant. Dw i ddim wedi cael digon o amser fel Pennaeth Adran newydd eto i feithrin agwedd mwy eangfrydig at Ieithoedd Rhyngwladol, ond dw i'n obeithiol am y dyfodol."
(Ysgol yng nghwintil 5)

## Dysgu ieithoedd fel pynciau allgwricwlaidd

Mae Tabl 21 yn dangos yr ieithoedd mae plant yn eu dysgu fel pwnc allgwricwlaidd yn yr ysgolion a ymatebodd ar draws yr holl Gyfnodau Allweddol. Fel y mae arolygon *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* blaenorol wedi dangos, prin iawn yw'r ysgolion sy'n cynnig addysgu ieithoedd fel pynciau allgwricwlaidd. Dim ond 10.5 y cant o ysgolion a nododd Mandarin yng Nghyfnod Allweddol 3, gostyngiad o bron i 10 y cant ers 2024. Yn y golofn 'Arall', nododd athrawon fod dysgwyr yn dysgu Eidaleg, Siapaneg, Swahili, Tyrceg a Rwsieg.

| | Arabeg | Ffrangeg | Almaeneg | Mandarin | Pwyleg | Sbaeneg | Dim | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **CA3** | 3.5% | 5.3% | 3.5% | 10.5% | 3.5% | 12.3% | 63.2% | 8.8% |
| **CA4** | 3.5% | 8.8% | 0.0% | 8.8% | 10.5% | 10.5% | 73.7% | 0.0% |
| **Ôl-16** | 0.0% | 0.0% | 0.0% | 5.3% | 0.0% | 1.8% | 87.7% | 0.0% |

Tabl 21: Canran o ysgolion uwchradd a ymatebodd sy'n cynnig ieithoedd fel pynciau allgwricwlaidd

# Ieithoedd Cartref, Treftadaeth a Chymuned

Nododd y cyfrifiad ysgolion blynyddol fod Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol (SIY) i 6,531 o ddysgwyr yn ysgolion uwchradd Cymru ym mlwyddyn ysgol 2024/25. Mae hynny'n gynnydd o'i gymharu â'r 6,101 o ddysgwyr a nodwyd yn y flwyddyn ysgol flaenorol (*StatsCymru, 2025*). Nodwyd mai yn ysgolion uwchradd Caerdydd a Chasnewydd y ceir y nifer mwyaf o ddysgwyr SIY – cyfanswm o bron i 3,000 o ddysgwyr.

Nododd wyth deg pedwar y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd fod ganddynt ddysgwyr â Saesneg neu Gymraeg yn iaith ychwanegol. Gofynnwyd i ymatebwyr restri'r ieithoedd a siaredir gan eu dysgwyr. Nodwyd oddeutu pedwar deg pump o wahanol ieithoedd a/neu dafodieithoedd ar draws yr ysgolion a ymatebodd (gweler Tabl 22)


| Iaith | Nifer y siaradwyr |
|---|---|
| Affricanneg | 1 |
| Arabeg | 20 |
| Basgeg | 1 |
| Bengali | 4 |
| Bwlgareg | 4 |
| Catalaneg | 1 |
| Tsieinëeg | 3 |
| Iaith Tsiec | 1 |
| Tafodieithoedd o Wledydd yn Nwyrain Affrica | 2 |
| Iseldireg | 1 |
| Ffarsi | 3 |
| Ffinneg | 1 |
| Ffrangeg | 4 |
| Almaeneg | 3 |
| Groeg | 3 |
| Gujarati | 1 |
| Hawseg | 1 |
| Hindi | 2 |
| Hwngareg | 4 |
| "Iaith India" | 1 |
| Eidaleg | 4 |
| Siapaneg | 3 |

| Iaith | Nifer y siaradwyr |
|---|---|
| Kannada | 1 |
| Corëeg | 1 |
| Latfieg | 1 |
| Lithwaneg | 4 |
| Malaialam | 1 |
| Mandarin | 7 |
| Pwyleg | 33 |
| Portiwgaleg | 8 |
| Punjabi | 1 |
| Rwmaneg | 10 |
| Rwsieg | 10 |
| Slofaceg | 1 |
| Sbaeneg | 6 |
| Swahili | 1 |
| Swedeg | 1 |
| Tagalog | 1 |
| Tamil | 1 |
| Thai | 1 |
| Tulu | 1 |
| Tyrceg | 12 |
| Wcreineg | 17 |
| Wrdw | 11 |
| Fietnameg | 1 |

Tabl 22: Ieithoedd Cartref, Treftadaeth a Chymuned a siaredir gan ddysgwyr yn yr ysgolion uwchradd a ymatebodd

Gofynnwyd i'r ysgolion uwchradd os oedd cyfle i ddysgwyr sefyll arholiadau yn eu Hieithoedd Cartref, Treftadaeth a Chymuned; mae nifer yr ysgolion uwchradd sy'n cynnig cyfleoedd o'r fath wedi gostwng, o 77 y cant yn 2024, i 65 y cant yn 2025.

## Cyfleoedd i sefyll arholiadau mewn Ieithoedd Cartref, Treftadaeth a Chymuned




Ffigwr 11: Ymatebion ysgolion uwchradd yn 2024/25 i'r cwestiwn "Oes cyfle i'ch dysgwyr sefyll arholiadau yn yr ieithoedd a siaredir ganddynt yn eu cartrefi neu gymunedau?'

## Ymgysylltiad rhyngwladol mewn ysgolion uwchradd

Mae Tabl 23 yn dangos y ganran o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd sydd wedi manteisio ar gyfleoedd i ymgysylltu'n rhyngwladol dros y pedair blynedd diwethaf. Yn debyg i'r llynedd, nododd 21 y cant o'r ysgolion fod ganddynt sefydliad partner dramor; ond mae Ffigwr 12 yn dangos mai ysgolion yng nghwintil 1 yw mwyafrif yr ysgolion hyn. Dim ond pump y cant yn unig o'r ysgolion a ymatebodd sydd wedi cyflogi Cynorthwywyr Iaith – ac mae'r rheini'n ysgolion yng ngwintiliau 1–3.

Mae'r ganran sy'n manteisio ar gynllun Mentora Myfyrwyr ITM yn parhau'n uchel. Nododd 74 y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd eu bod wedi cymryd rhan yn y cynllun mentora ym mlwyddyn ysgol 2024/25. Mae'r cynllun yn annog dysgwyr i astudio Ieithoedd Rhyngwladol ar gyfer TGAU a thu hwnt drwy raglen o sesiynau mentora wyneb yn wyneb ac ar-lein yn ogystal ag amrywiaeth o adnoddau. Mae'r cyfan ar gael am ddim i bobl ifanc yng Nghymru.[6]


6 Gweler gwefan Mentora ITM am wybodaeth bellach: https://mflmentoring.co.uk/cy/ni-yw-y-lab-cymraeg/.

Yn y golofn 'Arall', nododd athrawon eu bod wedi cynnal teithiau dramor (gan gynnwys tripiau i Ffrainc a Sbaen) a rhaglen gyfnewid i ddysgwyr. Nododd tair ysgol nad oeddynt wedi manteisio ar unrhyw fath o ymgysylltiad rhyngwladol.

| | 2021/22 | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 |
|---|---|---|---|---|
| **Mae gan ein hysgol un neu fwy o sefydliadau partner dramor** | 17% | 18% | 21% | 21% |
| **Cyfleoedd rhyngwladol y British Council** | 6% | 15% | 6% | 7% |
| **Rydym yn cyflogi Cynorthwywyr Iaith** | 8% | 9% | 4% | 5% |
| **Rydym yn ymgysylltu â sefydliadau diwylliannol (e.e. Confucius Institute, Goethe-Institut, Institut Français, Consejería de Educación)** | 38% | 31% | 21% | 33% |
| **Rydym yn cymryd rhan yng nghynllun Mentora Myfyrwyr ITM** | 56% | 72% | 72% | 74% |
| **Rydym yn manteisio ar raglen Llwybrau at Ieithoedd Cymru** | 78% | 66% | 58% | 56% |
| **Arall (nodwch os gwelwch yn dda)** | N/A | 19% | 19% | 23% |

Tabl 23: Ymgysylltiad rhyngwladol yr ysgolion uwchradd a ymatebodd dros y pedair blynedd diwethaf (caniatawyd rhoi mwy nag un ateb)


## Ymgysylltiad rhyngwladol yr ysgolion uwchradd a ymatebodd (fesul cwintil)




Ffigwr 12: Ymgysylltiad rhyngwladol yn yr ysgolion uwchradd a ymatebodd (fesul cwintil) ym mlwyddyn ysgol 2024/25

# Ieithoedd Rhyngwladol a'r Cwricwlwm i Gymru


Nawr fod y Cwricwlwm newydd ar waith yn ysgolion Cymru, nododd chwarter o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd eu bod yn credu fod gwelliant yn sefyllfa Ieithoedd Rhyngwladol naill ai'n debygol iawn (1.8 y cant) neu'n lled debygol (22.8 y cant). Mae graddau'r cydweithio rhwng adrannau ieithoedd o ran y Maes Profiad Dysgu wrth baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd fwy neu lai'r un peth ag a welwyd yn 2024. Mae ychydig dros hanner yr ysgolion a ymatebodd wedi gwneud newidiadau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn barod, tra bod ychydig yn llai na chwarter wedi trafod newidiadau ond heb roi cynlluniau ar waith eto (gweler Ffigwr 13).




Ffigwr 13: Ymatebion athrawon yn 2024 a 2025 i'r cwestiwn 'I ba raddau mae eich adran Ieithoedd Rhyngwladol wedi bod yn cydweithio o ran eich Maes Profiad Dysgu a thrwy'r ysgol gyfan wrth baratoi ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith?'

## Technoleg Deallusrwydd Artiffisial a gwersi ieithoedd

Yn 2025, mae mwy o ysgolion yn defnyddio technoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn gwersi ieithoedd (gweler Ffigwr 14). Mae 9 y cant o'r ysgolion a ymatebodd yn defnyddio AI yn gyson (o'i gymharu â sero yn 2024), ac mae 44 y cant o athrawon eraill a ymatebodd yn ei ddefnyddio'n achlysurol mewn rhai gwersi bob mis (o'i gymharu â 25 y cant yn 2024).




Ffigwr 14: Pa mor aml y defnyddir technoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn yr ysgolion a ymatebodd wrth addysgu ieithoedd yn 2024 a 2025

Nododd un deg pedwar o'r ysgolion a ymatebodd eu bod yn caniatáu i'w dysgwyr ddefnyddio technoleg AI i gefnogi dysgu ieithoedd; ymysg sylwadau athrawon, rhanwyd y canlynol:

"Rydyn ni wedi annog dysgwyr CA4/5 i ddefnyddio AI, gyda gofal, i wirio cywirdeb ysgrifennu, helpu gyda chynllunio traethodau, a hybu strwythurau a geirfa mwy uchelgeisiol. Rydyn ni wedi bod yn defnyddio adnodd AI *Quizlet* yn bennaf. Mae'r athrawon yn gwirio holl waith y dysgwyr." (Ysgol yng nghwintil 1)

"Rydyn ni'n defnyddio *Sanako* ar gyfer gweithgareddau wythnosol – mae *Pronounce Live* yn defnyddio AI i raddio ynganiad brawddeg neu ymadrodd. Mae'r adnodd hefyd yn defnyddio AI i asesu tasgau paru a chysylltu mewn ymarferion geirfa, ac i farcio gweithgareddau amlddewis Gwrando a Gramadeg. Nid ydym yn caniatáu defnyddio AI i gyfansoddi gwaith ysgrifenedig." (Ysgol yng nghwintil 1))

Nododd un ymatebwr:

"Mae'r dysgwyr yn cael ei ddefnyddio, ond nid oes cyfle i fanteisio ar hynny mewn gwersi sy'n dueddol o gael eu harwain gan yr athrawes/athro. Byddai'n rhaid i ni roi cefnogaeth a chanllawiau i ddysgwyr am sut i ddefnyddio AI ar gyfer dysgu iaith." (Ysgol yng nghwintil 5)

## Ieithoedd Rhyngwladol a'r ddarpariaeth ôl-16

Nododd chwe deg y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd fod ganddynt ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol (gweler Tabl 24; mae'r ffigurau'n cynnwys yr ysgolion a nododd 'Arall'). Mae hynny'n golygu fod dwy ysgol o bob pump a ymatebodd yn nodi nad oes darpariaeth ôl-16 ar gyfer ieithoedd rhyngwladol ganddynt; ac mae'r rhan fwyaf o'r ysgolion hynny yng nghwintilau 4 a 5. Dim ond 5 o ysgolion yng nghwintiliau 4 a 5 yn ein set data ni a nododd fod ganddynt ddarpariaeth Ieithoedd Rhyngwladol ôl-16. Nododd un ysgol (yn y golofn 'Arall') na fyddant yn cynnig opsiwn Ieithoedd Rhyngwladol o gwbl yn y flwyddyn ysgol nesaf.

| Oes gan eich ysgol ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol? | Canran yr ymatebwyr |
|---|---|
| Oes, yn cael ei addysgu'n gyfan gwbl yn yr ysgol | 35.1% |
| Oes, yn cael ei addysgu ar y cyd rhwng yr ysgol hon ag ysgol arall | 14.0% |
| Oes, ond yn cael ei addysgu'n gyfan gwbl mewn ysgol arall | 5.3% |
| Nac oes | 40.4% |
| Arall | 5.3% |

Tabl 24: Oes gan eich ysgol ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol?

Ni nododd unrhyw ysgol fod ganddynt fwy na 11–15 o ddysgwyr yn astudio ieithoedd yn y cyfnod ôl-16. Nododd gweddill yr ysgolion naill fod ganddynt nifer fach o ddysgwyr neu ddim dysgwyr o gwbl yn astudio ieithoedd. Ni nododd yr un ysgol yng ngwintilau 4 a 5 fod ganddynt unrhyw ddysgwyr yn astudio ieithoedd ym Mlwyddyn 12; tra nodwyd fod pump neu lai o ddysgwyr yn astudio ieithoedd ym mlwyddyn 13.

| Nifer y dysgwyr ôl-16 | Blwyddyn 12 (% o'r ysgolion) | Blwyddyn 13 (% o'r ysgolion) |
|---|---|---|
| 5 neu lai | 47.1% | 58.8% |
| 6–10 | 8.8% | 17.6% |
| 11–15 | 11.8% | 0.0% |
| 15–20 | 0.0% | 0.0% |
| Mwy na 20 | 0.0% | 0.0% |
| Dim | 32.4% | 23.5% |

Tabl 25: Y nifer o ddysgwyr ôl-16 yn yr ysgolion uwchradd a ymatebodd â darpariaeth ôl-16 (cyfrifwyd canranau ar sail y nifer o ysgolion â darpariaeth ôl-16; n=34)

Nododd hanner yr ysgolion â darpariaeth ôl-16 nad ydynt yn cynnal dosbarthiadau os yw nifer y dysgwyr yn rhy isel, sy'n gynnydd bach o bedwar y cant ers 2024 (gweler Tabl 26). Nododd llai o ysgolion fod dosbarthiadau'n cael eu cynnal â llai o oriau amserlen, tra bod mwy o ysgolion yn rhannu trefniadau gydag ysgol arall yn 2025 nag yn 2024. Yn sylwadau'r golofn 'Arall', nododd athrawon: i) fod gwersi iaith yn cael eu cynnal mewn un ysgol yn y sir; ii) fod dosbarthiadau'n cael eu cynnal ni waeth pa mor isel yw nifer y dysgwyr; a iii) fod Ffrangeg yn cael ei addysgu drwy raglen gydweithredol Esgol – *'rhaglen hybrid traws-ranbarth lle mae'r dysgwyr naill ai'n bresennol yn yr ysgol lle mae'r wers yn digwydd neu'n ymuno o bell ar-lein'* (geiriau'r ymatebydd).

| Trefniadau ôl-16 ar gyfer niferoedd bach o ddysgwyr | Y ganran o'r ysgolion lle mae'r trefniadau hyn ar waith | |
|---|---|---|
| | **2024 (n=28)** | **2025 (n=34)** |
| Mae dosbarthiadau AS ac A2 yn cael eu haddysgu gyda'i gilydd | 7% | 3% |
| Ni chynhelir dosbarthiadau | 46% | 50% |
| Cynhelir dosbarthiadau, ond â llai o oriau amserlen | 36% | 29% |
| Rhannu trefniadau addysgu gydag ysgol arall | 18% | 26% |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | 18% | 18% |

Tabl 26: Atebion ymatebwyr i'r cwestiwn 'Pa drefniant sydd gan eich ysgol (os oes o gwbl), pan mai nifer fach yn unig o ddysgwyr sydd am astudio Iaith Ryngwladol yn y cyfnod ôl-16?' (caniateir mwy nag un ateb)

Pan ofynnwyd am yr isafswm o ddysgwyr sy'n ofynnol i gynnal dosbarthiadau Ieithoedd Rhyngwladol Safon Uwch, cafwyd amrywiaeth o atebion ar draws y pump cwintil – o gyn lleied ag un, i gymaint â deg. Nododd ymatebwyr eraill nad oedd pennu isafswm yn berthnasol yn eu hysgolion gan fod y rhif hwnnw'n newid o flwyddyn i flwyddyn, tra nododd eraill bod diffyg eglurdeb a thryloywder ynglyn â hyn.

Gofynnwyd i'r athrawon ystyried a oeddent wedi gweld unrhyw newidiadau o ran nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio ieithoedd a/neu'r ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol yn eu hysgolion dros y tair blynedd diwethaf. Dim ond un o'r ysgolion a ymatebodd a nododd weld nifer sefydlog yn dewis astudio Iaith Ryngwladol Arall. Mae'r nifer sy'n dewis Ffrangeg yn sefydlog mewn 35 y cant o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd, Almaeneg mewn 9 y cant, a Sbaeneg mewn 18 y cant o'r ysgolion. Sbaeneg yw'r unig iaith sydd wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n dewis ei hastudio (n=3). Nododd dwy ysgol fod Ffrangeg ac Almaeneg wedi cael eu cyflwyno fel pynciau Safon Uwch newydd. Ond mae'r nifer sy'n dewis Ffrangeg wedi gostwng mewn 35 y cant o'r ysgolion a ymatebodd, a Sbaeneg wedi gweld gostyngiad o 29 y cant.

O ran y rhesymau am y newid yn nifer y dysgwyr sy'n dewis ieithoedd neu'r ddarpariaeth ôl-16, nodwyd y canlynol gan athrawon:

"Rydyn ni wedi gweld dirywiad sylweddol yn nifer y dysgwyr yn y sir sydd am astudio ar gyfer AS/A2 mewn iaith. Mae'r system Eysgol yn hwyluso addysgu Ieithoedd Rhyngwladol ar gyfer AS/A2 yn y rhanbarth yma drwy ddod â'r holl ddysgwyr at ei gilydd, gydag un ysgol yn cyflawni'r addysgu – naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein. Mae Almaeneg wedi diflannu'n gyfan gwbl fel pwnc AS/A2 yn y sir er gwaethaf rhai ceisiadau." (Ysgol yng nghwintil 1)

"Rydym wedi gweld cynnydd mewn Sbaeneg, ac rydym wedi stopio addysgu TGAU Mandarin oherwydd niferoedd isel, ac ar gyfer CA5 hefyd gan nad oedd cwrs addas na dull assesu ar gael ar gyfer dysgwyr nad sy'n siaradwyr brodorol." (Ysgol yng nghwintil 2)

"Nifer fawr o ddysgwyr yn gadael yr ysgol uwchradd i fynd i goleg 6ed dosbarth. Canfyddiad dysgwyr fod arholiadau TGAU yn anodd."
(Ysgol yng nghwintil 5)

## Recriwtio athrawon iaith

Nododd llai o'r athrawon a ymatebodd i arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2025* fod recriwtio athrawon iaith cymwysedig yn destun trafod yn eu hadrannau; yn 2025, doedd recriwtio ddim yn destun trafod i 58 y cant o'r ymatebwyr, o'i gymharu â 43 y cant yn 2024 (gweler Tabl 27). Nododd dwy ysgol yng nghwintil 5 fod recriwtio yn destun pryder; ysgolion yng nghwintiliau 1–3 yw gweddill yr ymatebwyr. Yn y golofn 'Arall', nododd athrawon fod: i) apwyntio athrawes/athro Almaeneg dros gyfnod mamolaeth wedi bod yn heriol; ii) dyfodol recriwtio yn destun pryder yn yr ysgol, ac maent yn ymwybodol fod hynny'n destun pryder mewn ysgolion eraill hefyd; a iii) ymwybyddiaeth gyffredinol bod llai o athrawon iaith ar gael.

| Ydy recriwtio'n destun trafod? | 2024 (n=53) | 2025 (n=57) |
|---|---|---|
| Ydy, mae'n fater o bwys | 23% | 11% |
| Ydy, ond mater cymharol fach | 8% | 16% |
| Nac ydy, nid yw'n destun trafod | 43% | 58% |
| Nid wyf yn gwybod | 13% | 7% |
| Arall (nodwch os gwelwch yn dda) | 9% | 9% |
| Heb ateb | 4% | N/A |

Tabl 27: Ymateb athrawon ysgolion uwchradd a ymatebodd i'r cwestiwn 'Ydy recriwtio athrawon iaith cymwysedig yn destun trafod yn eich adran?"

## Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru: lleisiau o'r ystafell ddosbarth uwchradd

Ar adeg dosbarthu'r arolwg, roedd cynigion yn yr arfaeth i gau'r adran Ieithoedd Tramor Modern ym Mhrifysgol Caerdydd. Er bod y penderfyniad hwnnw wedi cael ei wrthdroi'n rhannol, gofynnwyd i'r athrawon am eu barn am effaith bosib penderfyniad o'r fath ar y nifer sy'n dewis astudio ieithoedd. Mae'r ymatebion yn amlygu rôl bwysig Prifysgol Caerdydd ym maes addysgu a dysgu ieithoedd yng Nghymru.

"Er bod y penderfyniad hwn wedi cael ei wrthdroi bellach, rwy'n deall y bydd gostyngiad yn nifer yr ieithoedd a gynigir yng Nghaerdydd. Rwy'n credu bod y straeon yn y wasg wedi creu'r argraff nad yw ieithoedd yn werth chweil, ac nad oes eu hangen. Mae rhai dysgwyr iau wedi crybwyll hynny, ac mae rhai'n credu fod gradd mewn iaith yn ddiwerth a ddim yn rhywbeth y byddent yn ei ystyried yn y dyfodol. [...] Mae cynllun ITM a'r siaradwyr allanol sy'n dod i'r ysgol yn gorfod gweithio'n galed i chwalu'r mythau hun!"
(ysgol yng nghwintil 1)

"Enfawr – nid yw'n beth da i Gymru fod Prifysgol y brif ddinas heb adran ieithoedd modern o gwbl. Dyhead nifer o ddisgyblion yr ysgol yw astudio yng Nghaerdydd ac felly ni fyddent yn medru gwneud ieithoedd."
(Ysgol yng nghwintil 1)

"Mae'n un ffactor arall sy'n ychwanegu at yr heriau sy'n bodoli'n barod. Mae'n cyfrannu at greu delwedd o bwnc sydd ddim yn bwysig ac yn tynnu oddi ar ei statws." (Ysgol yng nghwintil 3)

"Mae'r cyhoeddusrwydd o gwmpas y bwriad i gau wedi atgyfnerthu'r syniad ym meddyliau pobl nad yw ieithoedd yn bwysig." (Ysgol yng nghwintil 4)

"Rwy'n credu fod hyn yn ergyd farwol answyddogol i ieithoedd yng Nghymru. Rwy'n gweithio mewn ardal sydd ymysg y mwyaf difreintiedig yn Ne Cymru, felly mae annog dysgwyr i ystyried gwneud gradd yn y brifysgol yn ddigon anodd fel y mae. Yna, ar ben hynny, byddai gorfod dweud wrthynt nad oes prifysgol leol y gallant ei mynychu i astudio ieithoedd yn lladd eu brwdfrydedd, a chreu llawer o benderfyniadau anodd iddynt." (Ysgol yng nghwintil 5)

Cafwyd argymhellion gan yr athrawon a ymatebodd am sut i wella sefyllfa addysgu a dysgu ieithoedd – mewn ysgolion, ac ar draws y system addysg gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys darparu gwybodaeth am yrfaoedd sy'n ddibynnol ar ieithoedd a phwysigrwydd ieithoedd, amserlennu mwy o amser cwricwlwm ar gyfer addysgu ieithoedd, mwy o arian (ar gyfer Cynorthwywyr Iaith, technoleg, tanysgrifiadau *Sanako*, siaradwyr gwadd, teithiau ysgol) ac adolygiad o drefn graddio arholiadau:

"Hybu pwysigrwydd ieithoedd o ran gyrfaoedd; Uwch Dimoedd Rheoli yn atgyfnerthu hynny; Dyfodol Byd-eang – ble maen nhw? Byd busnes yn pwysleisio'r neges." (Ysgol yng nghwintil 1)

"Mae amser cwricwlwm yn broblem, yn yr ysgol yn ogystal â ledled Cymru gan fod angen amserlennu cymaint o bethau eraill. Fel arfer, ieithoedd yw un o'r pynciau cyntaf i gael eu bwrw." (Ysgol yng nghwintil 2)

"Mae toriadau yn ein cyllideb wedi cael effaith aruthrol ar y feddalwedd a'r dechnoleg y gallwn ei fforddio i gryfhau profiadau dysgu ein dysgwyr. Gydag arian ychwanegol gallem fforddio pethau fel tanysgrifiadau *Language Gym/ Sanako*, a byddai hynny'n helpu i danio brwdfrydedd y dysgwyr a'u helpu i wneud cynnydd yn y pwnc. Byddai hynny, yn ei dro, yn effeithio ar nifer y dysgwyr sy'n dewis iaith ar gyfer TGAU hefyd." (Ysgol yng nghwintil 2)

"Arian i ddod â siaradwyr gwadd i'r ysgol i siarad â'r dysgwyr am bwysigrwydd dysgu ieithoedd. Sicrhau bod arian digonol i gynnal sefydliadau fel Mentora ITL a Llwybrau at Ieithoedd." (Ysgol yng nghwintil 3)

"Er gwaetha'r newidiadau ym manyleb TGAU, rwy'n dal i deimlo fod yr arholiadau terfynol yn Ffrangeg yn annheg. Mae'r sôn cyson am farcio llym arholiadau ieithoedd wedi creu'r argraff mai dim ond y dysgwyr mwyaf galluog sy'n gallu llwyddo yn y pwnc. Dyw'r elitiaeth yma ddim yn helpu'r sefyllfa, ac mae'n argraff sy'n gwthio llawer o ddysgwyr i gefni ar y pwnc. Rwy'n teimlo y byddai dull gwell o arholi/ asesu dysgwyr yn creu sefyllfa dipyn tecach." (Ysgol yng nghwintil 5)

Er gwaetha'r heriau, mae'r athrawon a ymatebodd i arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2025* yn ategu pwysigrwydd Ieithoedd Rhyngwladol, gan sôn am yr hyn sy'n gweithio'n dda yn yr ystafell ddosbarth:

"Athrawon cymwysedig sy'n angerddol am Ieithoedd Rhyngwladol yw'r peth sy'n cael yr effaith FWYAF ar y dysgwr – ac mae hynny'n FFAITH. [...] David Binns o *Sanako* – eiriolwr a siaradwr gwadd gwych a wnaeth argraff fawr ar ddysgwyr CA3. Cefnogaeth gan Goethe Institute a Phrifysgol Abertawe i gynnal Sioe Yrfaoedd – effaith anferth ar ein dysgwyr. [...] Uwch Dîm Rheoli/Pennaeth eithriadol o gefnogol sy'n llafar o blaid Ieithoedd Rhyngwladol a phwysigrwydd dysgu iaith."
(Ysgol yng nghwintil 1)

"Mae sgiliau llafar y dysgwyr mewn gwersi'n mynd yn dda iawn. Rydyn ni'n defnyddio ymadroddion idiomatig ac adnabyddus i annog y dysgwyr i siarad am bethau mewn ffordd sy'n eu cadw rhag teimlo'n hunan-ymwybodol. Mae technoleg fel *Adobe Voice Record* hefyd yn talu ffordd." (Ysgol yng nghwintil 2)

"Mae Mentora ITM yn gweithio'n dda iawn i ni, ac mae wedi arwain at gynnydd bach yn y nifer sy'n dewis astudio iaith eleni yng Nghyfnod Allweddol 4."
(Ysgol yng nghwintil 3)

"Rydyn ni'n trefnu wythnos ieithoedd ym mis Medi o gwmpas Diwrnod Ieithoedd Ewrop (26 Medi) – gan ganolbwyntio ar ddiwylliant a thraddodiadau, rhoi blas o elfennau sylfaenol amryw o Ieithoedd Rhyngwladol, a bwydydd rhyngwladol yn y ffreutur."
(Ysgol yng nghwintil 4)

# Canfyddiadau'r arolwg colegau ôl-16

Gwahoddwyd un ar ddeg o golegau ôl-16 i gymryd rhan yn arolwg *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2025*, ac fe ymatebodd chwe choleg. Mae pob un o'r colegau a ymatebodd yn cynnig cyfle i ddysgwyr astudio ar gyfer Safon Uwch mewn Ieithoedd Rhyngwladol; ac mae un hefyd yn cynnig cyfle i ail-sefyll arholiadau TGAU mewn Ieithoedd Rhyngwladol lle bo angen. Nododd un coleg y byddai'n croesawu dewis gwahanol o gwrs Lefel 3 mewn Ieithoedd Rhyngwladol sy'n cario pwyntiau UCAS. Mae tri choleg yn cyflogi Cynorthwyydd Iaith; nododd y colegau eraill mai ystyriaethau ariannol yw'r unig reswm nad ydynt yn cyflogi Cynorthwyydd Iaith. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae canfyddiadau arolygon y colegau ôl-16 yn canolbwyntio ar Safon Uwch mewn Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg.

Mae'r colegau'n cynnig cyrsiau amser llawn a rhan-amser mewn amrywiaeth eang o bynciau. Mae rhai colegau hefyd yn cynnig cyfleoedd Hyfforddiant a Phrentisiaethau. Ag ystyried y nifer fach o golegau a ymatebodd, rydyn ni'n cyflwyno'r data ar ffurf rhifau crai.

Nododd pob un o'r colegau a ymatebodd fod ganddynt ddysgwyr Ieithoedd Rhyngwladol ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 – sy'n ddarlun cadarnhaol o'i gymharu â chanfyddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2023* lle nododd tri choleg nad oedd ganddynt unrhyw ddysgwyr yn astudio Ieithoedd Rhyngwladol. Unwaith eto, nododd dau goleg fod ganddynt dros 20 o ddysgwyr Ieithoedd Rhyngwladol ym Mlwyddyn 12 yn 2024/25 (Tabl 28).

| | 2023 | | 2024 | | 2025 | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Blwyddyn 12** | **Blwyddyn 13** | **Blwyddyn 12** | **Blwyddyn 13** | **Blwyddyn 12** | **Blwyddyn 13** |
| **5 neu lai** | 1 | 3 | 1 | 0 | 1 | 1 |
| **6–10** | 1 | 1 | 1 | 2 | 1 | 2 |
| **11–15** | 2 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 |
| **15–20** | 0 | 0 | 1 | 2 | 2 | 3 |
| **Mwy na 20** | 1 | 1 | 2 | 0 | 2 | 0 |
| **Dim** | 3 | 3 | 0 | 0 | 0 | 0 |

Tabl 28: Nifer y dysgwyr sy'n astudio Ieithoedd Rhyngwladol yn y colegau a ymatebodd

Mae tri o'r colegau a ymatebodd yn pennu isafswm gofynnol o ddysgwyr cyn y gellir cynnal dosbarth iaith – dros y blynyddoedd diwethaf, deg o ddysgwr yw'r isafswm gofynnol. Pan mai nifer fach o ddysgwyr yn unig sydd am astudio iaith yn y colegau ôl-16 a ymatebodd, mae dau goleg yn cynnal dosbarthiadau â llai o oriau amserlen; mae un coleg yn cynnal dosbarthiadau sy'n cyfuno AS ac A2; tra bod coleg arall yn mynegi pryder am y dirywiad blynyddol yn nifer y dysgwyr sy'n cofrestru i astudio ieithoedd. Doedd recriwtio athrawon iaith cymwysedig ddim yn destun pryder i fwyafrif y colegau a ymatebodd – dim ond un a nododd fod hynny'n destun rhywfaint o bryder.

## Yr ieithoedd a addysgir mewn colegau ôl-16

Gofynnwyd i'r colegau ystyried y newidiadau a welwyd ganddynt (os o gwbl) yn y ddarpariaeth ôl-16 ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol yn eu sefydliadau. Ni nododd unrhyw un o'r colegau a ymatebodd eu bod yn addysgu 'Iaith Ryngwladol Arall' yn eu sefydliad. Nododd pump o'r chwe choleg a ymatebodd eu bod wedi gweld dirywiad yn nifer y dysgwyr sydd am astudio o leiaf un o blith Ffrangeg, Almaeneg a Sbaeneg. Dim ond un coleg a nododd weld cynnydd mewn unrhyw iaith, sef Sbaeneg.

| | Cyflwynwyd fel cymhwyster Safon Uwch newydd | Y nifer sy'n dewis astudio wedi cynyddu | Y nifer sy'n dewis astudio'n sefydlog | Gostyngiad yn y nifer sy'n dewis astudio | Ni chaiff ei gynnig | Gall dysgwyr astudio iaith fel rhan o gwrs galwedigaethol | Nid yw'n cael ei addysgu yn fy ngholeg | Arall |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffrangeg** | 0 | 0 | 3 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Almaeneg** | 0 | 0 | 1 | 2 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| **Sbaeneg** | 0 | 1 | 2 | 2 | 1 | 0 | 0 | 0 |
| **Iaith Ryngwladol Arall** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 0 |

Tabl 29: Newidiadau yn y nifer sy'n dewis ieithoedd, a'r ddarpariaeth ar gyfer Ieithoedd Rhyngwladol yn y colegau ôl-16 a ymatebodd

Roedd sylwadau gan ddarlithwyr yn cynnwys:

"Ers y pandemig rydym wedi gweld dirywiad sylweddol yn nifer y dysgwyr sy'n dewis Ffrangeg a Sbaeneg, sy'n golygu mai nifer fach iawn sydd wedi cofrestru. Rydym wedi gweld cynnydd yn y nifer sy'n dewis astudio ar gyfer cymwysterau iaith Cymraeg."

"Rydyn ni'n addysgu Ffrangeg a Sbaeneg. Fel arfer, mae dewisiadau ein dysgwyr yn seiliedig ar yr hyn mae'r ysgolion lleol yn ei gynnig. Er enghraifft, un flwyddyn bydd Ffrangeg yn fwy poblogaidd gan fod ysgolion lleol wedi cynnig Ffrangeg yng Nghyfnod Allweddol 4; yna, y flwyddyn nesaf bydd Sbaeneg yn fwy poblogaidd gan fod yr ysgolion wedi cynnig Sbaeneg yng Nghyfnod Allweddol 4. Yn y flwyddyn academaidd ddiwethaf doedd dim dysgwyr yn astudio Ffrangeg na Sbaeneg gyda ni. Eleni, mae pump o'r ugain sy'n dysgu Ffrangeg hefyd yn astudio Sbaeneg."

## Technoleg Deallusrwydd Artiffisial ym maes addysg ieithoedd ôl-16

Eleni, am yr eildro, gofynnwyd i'r colegau ôl-16 ystyried eu defnydd o dechnoleg Deallusrwydd Artiffisial (AI) wrth addysgu ieithoedd. Mae pob coleg a ymatebodd yn caniatáu i'w dysgwyr ddefnyddio technoleg AI, ond nododd staff fod rhai dysgwyr yn anfodlon i'w ddefnyddio:

"Rwy wedi eu hannog i ddefnyddio AI i wella eu dull o ysgrifennu traethodau ar ôl i fi eu marcio gyntaf (*Copilot*), ac i ymarfer eu sgiliau llafar (e.e. *Mizou*). Roedd rhai dysgwyr yn amharod i'w ddefnyddio."

## Gwella addysgu a dysgu ieithoedd mewn colegau ôl-16

Mewn sylwadau pen-agored, mae'r ymatebwyr yn egluro mwy am yr heriau a wynebir ganddynt o ran recriwtio dysgwyr ieithoedd ac wrth orfod addysgu llawer iawn o gynnwys mewn cyfnod byr. Pan ofynnwyd iddynt am sut y gellid gwella'r sefyllfa i ddysgwyr mewn colegau, cafwyd yr ymatebion canlynol:

"Er i ni weld gostyngiad mawr o ran recriwtio yn 2019 (pan ddaeth Bagloriaeth Cymru yn orfodol, a oedd wedyn yn golygu mai Bagloriaeth Cymru oedd 4ydd pwnc AS y dysgwyr), rydyn ni'n dal i recriwtio ffigurau dwbl o ddysgwyr. Hefyd, rydyn ni wedi dechrau cydweithio â phrifysgol ac ysgolion lleol i gynyddu nifer y dysgwyr rydym yn eu recriwtio. Rydyn ni dal yn y cyfnod cynllunio ar hyn o bryd, ond rydyn ni'n edrych ar sefydlu mentrau i hyrwyddo ieithoedd yn lleol."

"Dw i'n teimlo'n reit lwcus yn y sefydliad yma. Ond mae angen sicrhau ein bod yn rhoi mwy o bwys ar addysgu a dysgu ieithoedd yn gyffredinol ledled Cymru. Dw i'n poeni na fydd dysgwyr yn cael cyfle i brofi a dysgu am wahanol ddiwylliannau yn ogystal â dysgu'r ieithoedd eu hunan, ac y gallai hynny arwain at gymdeithas gul ei meddwl – y gwrthwyneb llwyr i'r hyn sydd ei angen ar y byd ar hyn o bryd."

# Casgliad

Mae data *Tueddiadau Ieithoedd Cymru 2025* yn amlygu nifer o heriau ym maes addysg ieithoedd, gan gynnwys: cadw dysgwyr ieithoedd ar gyfer Safon Uwch (gyda Ffrangeg yn arbennig yn dioddef yn sgil y gostyngiad sylweddol mewn cofrestriadau Safon Uwch eleni); niferoedd isel o ddysgwyr yn dewis y pwnc; ac fel y nodwyd mewn sylwadau ansoddol gan yr athrawon a ymatebodd, amser cwricwlwm a thoriadau ariannol. Er bod y penderfyniad i gau'r adran ITM ym Mhrifysgol Caerdydd wedi cael ei wrthdroi, mae'r cyhoeddusrwydd am y camau arfaethedig gwreiddiol wedi codi pryderon am ganfyddiad pobl o addysg ieithoedd yn ogystal â thanseilio pwysigrwydd a safle addysg Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru.

Er gwaethaf yr ansicrwydd am ddyfodol Addysg Uwch Ieithoedd Rhyngwladol yng Nghymru, wrth edrych ar sefyllfa'r ysgolion, mae llawer i'w ddathlu yng nghanfyddiadau *Tueddiadau Ieithoedd Cymru* eleni. Yn fwyaf nodedig, mae ethos lluosieithog yn dechrau gwreiddio yn yr ysgolion cynradd, fel y dengys amrywiaeth yr ieithoedd a addysgir yn amser y cwricwlwm. Yn y sector uwchradd, gwelwyd cynnydd calonogol yng nghanran y dysgwyr sy'n astudio Ieithoedd Rhyngwladol yn 2025 (gan gynnwys un ysgol a nododd fod holl ddysgwyr cohort Blwyddyn 10 yn astudio Iaith Ryngwladol ar gyfer TGAU). Yn ogystal, nododd bron i draen o'r ysgolion uwchradd a ymatebodd fod mwy o ddysgwyr yn astudio Iaith Ryngwladol yng Nghyfnod Allweddol 4, o'i gymharu ag 13 y cant yn y flwyddyn ysgol flaenorol. Yn y colegau ôl-16 a ymatebodd, mae'r adrannau Ieithoedd Rhyngwladol yn llwyddo i gadw eu dysgwyr ieithoedd. Nododd pob un o'r colegau a ymatebodd fod ganddynt ddysgwyr Ieithoedd Rhyngwladol ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 (o'i gymharu â 2023 pan nododd tri o'r colegau nad oedd ganddynt unrhyw ddysgwyr iaith o gwbl).

Mae athrawon ac addysgwyr iaith wedi ailbwysleisio'r angen i fuddsoddi ym maes addysg Ieithoedd Rhyngwladol. Er bod rhai elfennau o'r data'n peri pryder, mae llawer mwy i'w ddathlu yn yr ystafell ddosbarth luosieithog, ac rydym am ddiolch yn ddi-ffuant i'r athrawon a roddodd o'u hamser prin i rannu eu barn a'u hargymhellion proffesiynol â'r ymchwil hwn.

# Llyfryddiaeth Cyfeiriadau

BBC (2025) Uni jobs cut plan slashes redundancies to 138. [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.bbc.co.uk/news/articles/cr4z626dq7po (Cyrchwyd: 16/07/25)

British Council (2025) Language Trends Research Series. [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.britishcouncil.org/research-insight/research-series/language-trends

Cwricwlwm i Gymru (2021) Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu [Ar-lein] Ar gael yma: https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/ieithoedd-llythrennedd-a-chyfathrebu (Cyrchwyd: 16/07/25)

Estyn (2025) Ieithoedd Rhyngwladol Mewn Ysgolion yng Nghymru. [Ar-lein] Ar gael yma: https://www.estyn.llyw.cymru/adnoddau-gwella/ieithoedd-rhyngwladol-mewn-ysgolion-yng-nghymru/ (Cyrchwyd: 09/09/25)

Gorrara, C., Jenkins, L., Jepson, E., a Machin, T. (2020) 'Multilingual perspectives: preparing for language learning in the new curriculum for Wales', The Curriculum Journal, 31(2), t. 244–57 (https://doi.org/10.1002/curj.11)

Graham, S., Courtney, L., Marinis, T. a Tonkyn, A. (2017) 'Early Language Learning: The Impact of Teaching and Teacher Factors', Language Learning, 67(4), t. 922–58 (https://onlinelibrary.wiley.com/doi/10.1111/lang.12251)

Joint Council for Qualifications (2025) Examination results. [Ar-lein]. Ar gael yma: https://www.jcq.org.uk/examination-results/ (Cyrchwyd: 21/08/25)

Save MLANG at Cardiff University! [Ar-lein] Cyrchwyd drwy: https://www.change.org/p/save-mlang-at-cardiff-university?recruiter=1323397389&recruited_by_id=4c608920-947a-11ee-979e-a9d3d2ad4601&utm_source=share_petition&utm_campaign=psf_combo_share_initial&utm_medium=email (Cyrchwyd: 16/07/25)

StatsCymru (2025) Data cryno Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion yn ôl awdurdod lleol (disgyblion rhwng 5 a 15 oed mewn ysgolion cynradd, canol neu uwchradd) ). [Ar-lein] Ar gael yma: https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Education-and-Skills/Schools-and-Teachers/Schools-Census/Pupil-Level-Annual-School-Census/pupillevelannualschoolcensussummarydata-by-localauthority (Cyrchwyd: 15/08/25)

Cyngor y Prifysgolion ar gyfer Ieithoedd / University Council for Languages (2025) Save Modern Languages at Cardiff. [Ar-lein] Ar gael yma: https://university-council-for-languages.org/2025/02/03/save-modern-languages-at-cardiff/ (Cyrchwyd: 16/07/25)

**© British Council 2025**
Y British Council yw sefydliad rhyngwladol y Deyrnas Unedig ar gyfer cysylltiadau diwylliannol a chyfleoedd addysgol.